# CAFFAEL LLESIANT YNG NGHYMRU

Adolygiad o’r modd y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn trwytho caffael yng Nghymru.



Chwefror 2021



# Cynnwys


P03 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

P05 1.0 CYFLWYNIAD

P08 2.0 ADOLYGIAD ADRAN 20

P09 3.0 CANFYDDIADAU

- P10 3.1 ADOLYGIAD ADRAN 20 – CRYNODEB O GANFYDDIADAU
- P12 3.2 CANFYDDIADAU LLYWODRAETH CYMRU
- P24 3.3 CANFYDDIADAU CYRFF CYHOEDDUS
- P34 3.4 EFFAITH COVID-19 – HERIAU A CHYFLEOEDD

P38 4.0 ARGYMHELLION I LYWODRAETH CYMRU

P43 5.0 ARGYMHELLION I GYRFF CYHOEDDUS, YN CYNNWYS LLYWODRAETH CYMRU

P46 ADNODDAU DEFNYDDIOL

P47 CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL

**Mae'r gwaith hwn wedi ei gwblhau mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd fel rhan o Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth, gan gydnabod yn arbennig ymgyfraniad:**

- **Dr Jane Lynch, Darllenydd mewn Caffael yn Ysgol Fusnes Caerdydd.**
- **Athro Kevin Morgan, Deon Ymgysylltu.**

**Hoffwn ddiolch hefyd i aelodau'r grŵp llywio am eu cyfraniad:**

**Catryn Holzinger, Archwilio Cymru.**

**Vincent Hanley a Cat Griffith-Williams, Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru.**


**Emma Waldron, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.**

**Rhian Edwards, Canolfan Cydweithredol Cymru.**

**Keith Edwards, Rhwydwaith Economi Sylfaenol a 'Can-Do Toolkit'.**

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi i ni'r uchelgais, y caniatâd a'r ddyletswydd gyfreithiol i wella'n llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd.




Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a gyda'i gilydd, ac atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a'r newid yn yr hinsawdd.




Mae'r Ddeddf yn unigryw i Gymru ac yn denu diddordeb o wledydd ar draws y byd gan ei bod yn cynnig cyfle enfawr i greu newid parhaus a chadarnhaol i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

I sicrhau ein bod i gyd yn gweithio tuag at yr un diben, mae'r Ddeddf yn gosod yn eu lle saith nod llesiant.



Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i'r cyrff cyhoeddus a restrir weithio i gyflawni pob un o'r nodau, nid un neu ddau yn unig. Mae'r Ddeddf yn sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ym mhob ardal Awdurdod Lleol. Mae'n ofynnol iddynt asesu cyflwr llesiant yn lleol, gosod amcanion a chynhyrchu cynllun wedi ei ddylunio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardal leol, gan gyfrannu i'r nodau llesiant.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn diffinio Datblygu Cynaliadwy fel "y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy sy'n anelu at gyflawni'r nodau llesiant."

Mae’r Ddeddf yn pennu pum dull o weithio sydd eu hangen ar Gyrff Cyhoeddus i gyflawni’r saith nod llesiant. Mae’r ymagwedd hon yn rhoi cyfle ar gyfer meddwl yn arloesol, gan adlewyrchu’r ffordd yr ydym yn byw ein bywydau a’r hyn yr ydym yn ei ddisgwyl oddi wrth ein gwasanaethau cyhoeddus.

**Atal**

**Cynnwys**

**Hirdymor**

**Integreiddio**

**Cydweithio**



Swydd Sophie Howe fel [Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru] yw bod yn warcheidwad cenedlaethau’r dyfodol. Golyga hyn helpu cyrff cyhoeddus a’r rhai sy’n llunio polisi yng Nghymru i feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau.

Cychwynnodd Sophie ar ei swydd yn 2016 ac mae wedi arwain ymyriadau proffil uchel yn ymwneud â chynllunio trafnidiaeth, diwygio addysg a’r newid yn yr hinsawdd, gan herio’r Llywodraeth ac eraill i ddangos sut y maent yn ystyried cenedlaethau’r dyfodol.

Fel un a ddisgrifiwyd gan y Cylchgrawn Big Issue fel un o’r Gwneuthurwyr Newid mwyaf blaengar yn y DU, mae ei hymyriadau wedi sicrhau newidiadau sylfaenol mewn polisi cynllunio defnydd tir, cynlluniau trafnidaeth o bwys a pholisi’r Llywodraeth ar dai - gan sicrhau bod y penderfyniadau sy’n cael eu gwneud heddiw yn addas ar gyfer y dyfodol.

**Gallwch ddod o hyd i ragor am ein gwaith ar-lein: www.cenedlaethaurdyfodol.cymru**

# 01 Cyflwyniad

Mae'r Ddeddf yn rhoi cyfle i ni drawsnewid y modd y mae caffael yn cael ei gynllunio a'i ddarparu yng Nghymru. Drwy symud oddi wrth ymagwedd a anogir gan broses tuag at ymagwedd seiliedig ar ganlyniadau, gallwn sicrhau bod y £6.3 biliwn sy'n cael ei wario'n flynyddol gan y sector cyhoeddus yng Nghymru yn sicrhau'r canlyniadau gorau ar draws pob un o'r pedwar dimensiwn llesiant (economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, a diwylliannol), ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Caffael yw un o'r saith maes ar gyfer newid yng nghanllawiau statudol y Ddeddf (Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol, SPSF 1: Canllawiau Craidd) a rhaid iddo fod yn faes allweddol i gyrff cyhoeddus ffocysu arno wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf, yn cynnwys gosod, a chymryd pob cam rhesymol i gyflawni, eu hamcanion llesiant sefydliadol.

Os derbynnir (fel y dylid, gan ei fod wedi ei nodi yn y canllawiau statudol) bod y ffordd y mae adnoddau'n cael eu gwario trwy gaffael yn gam rhesymol, yna dylai strategaeth gaffael corff cyhoeddus fod yn nodi'n glir sut y maent yn caffael mewn ffordd sy'n eu helpu i gyflawni eu hamcanion llesiant sefydliadol, ac yn ei dro yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol. Dylent hefyd ddangos tystiolaeth eu bod yn alinio'n glir â'r pedwar dimensiwn llesiant (diwylliannol, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol) a sut y maent wedi defnyddio'r pum dull o weithio yn y Ddeddf sy'n cynllunio ar gyfer yr hirdymor, atal, integreiddio, cydweithredu ac ymgyfrannu. Dylid adrodd ar hyn trwy'r canlyniadau a gyflawnir.

Gan weithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd, rydyn ni wedi cynnal ymchwil i sefydlu i ba raddau y mae'r Ddeddf yn trwytho comisiynu a chaffael ar draws pob un o'r 44 corff cyhoeddus yng Nghymru ers 2016 (pan ddaeth y Ddefff i rym).

Mae ein gwaith wedi cael ei gynnal mewn dau gyfnod (i) ymchwil a (ii) Adolygiad Adran 20.

## 1.1. Cyfnod 1 – Ymchwil

Roedd yr ymchwil-desg (Awst 2019-Ionawr 2020) yn cynnwys yr ymagwedd ganlynol:

- Ymchwil-desg rhagarweiniol seiliedig ar bolisïau caffael cyhoeddedig a chanllawiau cyfredol
- Gofyn am dystiolaeth oddi wrth y 44 corff cyhoeddus a defnyddio'r wybodaeth a rannwyd i ddeall y cynnydd y mae cyrff cyhoeddus unigol yn ei wneud i gyflawni eu hamcanion llesiant, y saith nod llesiant cenedlaethol a'r pedwar dimensiwn llesiant, drwy ddefnyddio'r pum dull o weithio, o fewn eu hymagwedd tuag at gaffael
- Ymgysylltu â'r gymuned ehangach o randdeiliaid mewn digwyddiadau a fforymau rhanbarthol.

Amlinellir y prif ganfyddiadau o gyfnod cyntaf yr ymchwil yn 'Caffael dan y chwydd wydr' yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol y Comisiynydd a gyhoeddwyd ym Mai 2020. Mae'r bennod yn amlinellu'r hyn y gellid ei ddisgwyl petai'r £6.3 biliwn y flwyddyn sy'n cael ei wario gan gyrff cyhoeddus ar gaffael ystod o nwyddau, gwasanaethau a gwaith yn cael ei wario ar brynu pethau a fyddai'n gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol pobl a chymunedau yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn rhoi cyfle pwysig i ailfeddwl sut a ble mae arian cyhoeddus yn cael ei wario er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

## 1.2. Cyfnod 2 – Adolygiad Adran 20

Gan adeiladu ar ganfyddiadau o gyfnod ymchwil Cyfnod 1, sbardunwyd Adolygiad Adran 20 ym Mawrth 2020 i archwilio'n ffurfiol arferion caffael naw corff cyhoeddus. Pwrpas yr Adolygiad ffurfiol oedd i:
(i) ennill dealltwriaeth fanylach o'r modd y mae ymdrechion i wneud y Ddeddf yn rhan annatod o'u penderfyniadau caffael yn helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni, neu gymryd camau i gyflawni, eu hamcanion llesiant; ac
(ii) i ddeall mwy am y modd y mae cyrff cyhoeddus yn ystyried y dulliau statudol o weithio, yn arbennig ystyriaeth o effaith hirdymor eu hymagwedd tuag at gaffael.



## Adran 20: Adolygiadau gan y Comisiynydd

(1) Caiff y Comisiynydd gynnal adolygiad ynghylch i ba raddau y mae corff cyhoeddus yn diogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion drwy ystyried effaith hirdymor y pethau y mae'r corff yn eu gwneud o dan Adran 3.

(2) Wrth gynnal adolygiad, caiff y Comisiynydd adolygu

- (a) y camau y mae'r corff wedi eu cymryd neu'n bwriadu eu cymryd er mwyn cyflawni ei amcanion llesiant;
- (b) i ba raddau y mae'r corff yn cyflawni ei amcanion llesiant;
- (c) a yw corff wedi gosod amcanion llesiant ac wedi cymryd camau i'w cyflawni yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

(3) Wrth gynnal adolygiad, rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i unrhyw ymchwiliad o'r corff a gynhelir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan adran 15.

(4) Wrth gynnal adolygiad, caiff y Comisiynydd wneud argymhellion i'r corff cyhoeddus ynghylch

- (a) y camau y mae'r corff wedi eu cymryd neu'n bwriadu eu cymryd er mwyn cyflawni ei amcanion llesiant;
- (b) sut i osod amcanion llesiant a chymryd camau i'w cyflawni yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

(5) Caiff y Comisiynydd gynnal un adolygiad o ddau gorff cyhoeddus neu ragor.

(6) Rhaid i'r Comisiynydd gyhoeddi adroddiad ar adolygiad (gan gynnwys unrhyw argymhellion a wneir) ac anfon copi ohono at Weinidogion Cymru.

(7) Wrth gynnal adolygiad, caiff y Comisiynydd ei gwneud yn ofynnol i gorff cyhoeddus ddarparu'r wybodaeth honno y mae'r Comisiynydd yn ei hystyried yn berthnasol i'r adolygiad.

(8) Ond nid yw'n ofynnol i gorff cyhoeddus ddarparu gwybodaeth i'r Comisiynydd os yw'r corff wedi ei wahardd rhag ei darparu yn rhinwedd deddfiad neu unrhyw reol gyfreithiol arall.

Gyda dyfodiad sydyn COVID-19, a'r pwysau ychwanegol a roddwyd ar gyrff cyhoeddus wrth iddynt fynd i'r afael ag effaith yr argyfwng, gohiriwyd yr Adolygiad ym Mawrth ond cafodd ei ailddechrau ym mis Hydref 2020.

Rhoddodd trafodaethau yn ystod cyfweliadau gydag arweinyddion a chynrychiolwyr o bob un o'r naw corff cyhoeddus (yn ystod Hydref 2020) gyfle i drafod y camau maent yn cymryd i ymgorffori'r Ddeddf, a sefydlu'r heriau dwysaf a wynebir gan gyrff cyhoeddus. Helpodd y trafodaethau i ganfod unrhyw fylchau mewn cymorth y gall y bydd ei angen wrth symud ymlaen.

## At bwy mae'r adroddiad a'r argymhellion wedi eu hanelu?

Mae'r Adroddiad hwn yn cynnwys canfyddiadau ac argymhellion yn benodol ar gyfer y naw corff cyhoeddus oedd yn destun yr Adolygiad. Mae gan y naw sefydliad ddyletswydd statudol (Adran 22 (4)) i gyhoeddi eu hymateb i'r argymhellion a wnaed gan y Comisiynydd yn yr Adroddiad hwn. Anogir cyrff cyhoeddus i wneud hynny o fewn 25 diwrnod gwaith yn dilyn cyhoeddi'r argymhellion.

Mae llawer o'r argymhellion yr un mor berthnasol i bob corff cyhoeddus a ddylai eu hystyried fel cyngor, a byddwn yn dilyn cynnydd fel rhan o ddyletswydd y Comisiynydd i roi cyngor a chymorth ac i fonitro ac asesu sut mae cyrff cyhoeddus yn gwneud cynnydd tuag at eu hamcanion llesiant. Mae'r Comisiynydd ac Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd yn gweithio'n agos ar eu dyletswyddau cyflenwol, ac mae Archwilio Cymru wedi cyfrannu at yr Adolygiad hwn. Wrth symud ymlaen, bydd Comisiynydd ac Archwilydd Cyffredinol Cymru'n ceisio rhannu gwybodaeth berthnasol ar y modd y mae cyrff cyhoeddus yn gwneud cynnydd tuag at gyflawni gofynion y Ddeddf.

Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion yn cynnwys y rhai sy'n berthnasol i'r holl gyrff cyhoeddus sy'n destun yr Adolygiad a'r rhai sydd wedi'u cyfeirio'n bennaf at Lywodraeth Cymru yn rhinwedd ei swydd fel arweinydd. Mae'r argymhellion wedi'u hanelu'n benodol at y rheiny mewn swyddi uwch - Gweinidogion, Prif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Cyllid.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys enghreifftiau a rennir gan gyrff cyhoeddus, yn darlunio arfer da a'r gwersi a ddysgwyd, gan ddangos ystyriaeth o elfennau penodol o'r Ddeddf. Fodd bynnag, roedd yn heriol dod o hyd i enghreifftiau oedd yn dangos tystiolaeth o bob ystyriaeth a nodir yn y Ddeddf. Wrth weithredu argymhellion yr adroddiad hwn, dylai cyrff cyhoeddus ystyried sut y gall gweithgareddau caffael yn y presennol a'r dyfodol gyfrannu at saith nod llesiant Cymru, eu hamcanion llesiant sefydliadol a phedwar dimensiwn llesiant (diwylliannol, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol), drwy gymhwyso'r pum ffordd o weithio.

Dylai'r nodau llesiant gael eu gosod fel y prif amcanion cenedlaethol ar gyfer darparu caffael strategol yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn esbonio sut y gellir cyflawni hyn, gan ystyried rôl gweithwyr caffael proffesiynol, y swyddogaeth gaffael a sut y gall y broses gaffael gefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau ac amcanion sefydliadol ehangach.

# 02 Adolygiad Adran 20

Mae'r adran hon yn amlinellu'r fethodoleg a fabwysiadwyd ar gyfer yr Adolygiad.

## Cyfranogwyr ar y Rhestr Fer

O'r 44 Corff Cyhoeddus a wahoddwyd i gyfranogi yn y cyfnod ymchwil cychwynnol, dewiswyd naw sefydliad oedd yn cynrychioli ystod o sefydliadau Cenedlaethol, Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd ar gyfer yr Adolygiad:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir y Fflint
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Felindre (fel gwesteiwyr Cydwasanaethau GIG Cymru)
- Cyngor Sir Wrecsam
- Llywodraeth Cymru
- Cyngor Ynys Môn




Dewiswyd y naw corff cyhoeddus ar gyfer yr Adolygiad yn ôl ffactorau niferus yn cynnwys:

- Yr ymatebion i Gyfnod 1 – cyfnod yr ymchwil-desg.
- Cynrychiolaeth deg o sefydliadau Cenedlaethol, Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd oedd yn cael eu cyfweld.
- Tystiolaeth i ddatblygiad strategaeth gaffael unigol.
- Tystiolaeth a dderbyniwyd yn amlinellu'r camau a oedd yn cael eu cymryd i gyflawni gofynion y Ddeddf fel rhan o'u proses gaffael.



# 03 Canfyddiadau

Cyhoeddwyd canfyddiadau allweddol o'r cyfnod ymchwil ym Mai 2020 fel rhan o Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 y Comisiynydd. Caiff hwn ei gyhoeddi bob pedair blynedd fel rhan o ddyletswydd statudol ac mae'n rhoi asesiad o'r gwelliannau y mae cyrff cyhoeddus wedi eu gwneud mewn perthynas â chyflawni eu hamcanion llesiant. Gan wneud mwy na chyflawni 'dyletswydd', mae'r adroddiad hwn yn egluro sut mae sector cyhoeddus Cymru, ar y cyd, yn gwella llesiant yn unol â'r Ddeddf. Mae'r Comisiynydd wedi nodi caffael fel offeryn pwysig i ysgogi cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion llesiant, ac mae hefyd yn un o'r saith maes ar gyfer newid a nodwyd yng Nghanllaw Statudol Llywodraeth Cymru ar y Ddeddf.

Tabl 1: Crynodeb o ganfyddiadau allweddol ac argymhellion a gaiff eu cynnwys yn 'Caffael dan y chwydd wydr' (Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020, Mai 2020).

| HERIAU A CHYFLEOEDD AR GYFER NEWID | BLE RYDYN NI NAWR? | ARGYMHELLION DYLAI LLYWODRAETH CYMRU A CHYRFF CYHOEDDUS: |
|---|---|---|
| Datblygu arweinyddiaeth sy'n cynorthwyo ymagwedd strategol tuag ar gaffael, gan gydnabod 'pŵer prynu'. | Mae yna ymrwymiad gwleidyddol o'r newydd tuag at sicrhau bod caffael yn offeryn ar gyfer ysgogi uchelgais ehangach. Hyd yn hyn nid oes strategaeth, proses na chymorth caffael cenedlaethol clir i rannu dysgu a sbarduno gwelliant ar draws y sector cyhoeddus yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. | Edrych ar benderfyniadau caffael drwy lens y Ddeddf - drwy gymhwyso'r Pum Dull o Weithio, ystyried eu hamcanion llesiant ac/neu gamau a sut i facsimeiddio cyfraniad tuag at y saith nod llesiant ar gychwyn y broses hyd yn oed yn ystod y cyfnod cyn-caffael.<br><br>Darparu canllawiau ac arweinyddiaeth glir i gyrff cyhoeddus eraill, yn ogystal â monitro ac asesu sut y maent yn ystyried y Ddeddf yn eu gweithgareddau caffael. |
| Caffael llesiant: ffocws ar ganlyniadau a mesur yr hyn sy'n bwysig. | Mae'r broses gaffael wedi gwella cryn dipyn dros y degawd diwethaf; fodd bynnag, mae gormod o ffocws o hyd ar broses ac nid ar ganlyniadau.<br><br>Mae mesur 'buddion cymunedol' wedi bodoli ers llawer o flynyddoedd yng Nghymru, ond nid yw'r modd y mae'n cael ei adrodd na'i effaith yn cael eu rhannu'n eang. | Darparu tystiolaeth glir yn dangos sut mae eu gweithgareddau caffael yn cynorthwyo cyflawni eu hamcanion llesiant.<br><br>Adolygu eu hymagwedd tuag at gaffael er mwyn adnabod y cyfleoedd ar gyfer macsimeiddio effaith cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol eu penderfyniadau gwariant. |

| HERIAU A CHYFLEOEDD AR GYFER NEWID | BLE RYDYN NI NAWR? | ARGYMHELLION DYLAI LLYWODRAETH CYMRU A CHYRFF CYHOEDDUS: |
|---|---|---|
| Ffocysu ar gynllunio ariannol tymor hwy. | Mae yna ormod o ffocws ar gost tymor byr yn erbyn cyflawni canlyniadau ehangach. | Archwilio sut y gallant ddefnyddio cyllidebau i roi mwy o sicrwydd ariannol hirdymor i gyrff eraill y sector cyhoeddus a gwirfoddol i liniaru heriau tymor byr eu natur a wynebir gan gaffael. Gallai hyn gynnwys hwyluso contractau tymor hwy (lleiafswm o bum mlynedd) gyda chymalau terfynu wedi eu hymgorffori i ganiatáu hyblygrwydd parhaus. |
| Hyrwyddo cydweithredu effeithiol gyda'i gilydd a chyflenwyr, i wella rhannu, dysgu, capasiti a sgiliau. | Mae strwythurau ar gyfer cydweithredu a dysgu ar draws Cymru yn eu lle, ond maent yn ddiffygiol mewn cydweithrediad cenedlaethol ar draws gwahanol sectorau e.e. llywodraeth leol ac iechyd.<br><br>Ymddengys bod cyfleoedd i rannu gwybodaeth a dysgu yn gyfyng heb gynnwys ymgyfraniad trawstoriad eang o sefydliadau na phartneriaid. | Diogelu gwersi a ddysgwyd sy'n seiliedig ar ganlyniadau fframweithiau cyfredol i sicrhau bod cyfleoedd i atgyfnerthu'r Ddeddf yn cael eu macsimeiddio yn y dyfodol. |
| Adeiladu ar fframweithiau sefydledig, yn cynnwys rhai cyfreithiol. | Mae yna gyfleoedd i gynorthwyo arloesedd sydd angen eu deall yn well. | Cynnwys cymalau contract penodol wedi eu cysylltu ag amcanion/nodau llesiant ym mhob un o gontractau a fframweithiau'r sector cyhoeddus, gan ddefnyddio mesurau gwerth cymdeithasol i sicrhau effaith. |
| Hyrwyddo meddylfryd ac agwedd gallaf-wneud. | Mae yna eiriolwyr cenedlaethau'r dyfodol (sydd weithiau'n teimlo'n rhwystredig) o fewn ein cyrff cyhoeddus sy'n gweithio i gyflawni canlyniadau caffael cadarnhaol, yn aml heb gymorth sefydliadol nac arweinyddiaeth ehangach.<br><br>Mae caffael weithiau'n cael ei drin fel proses drafod, ac nid yw cyfleoedd trawsnewidiol yn cael eu macsimeiddio. | Ennyn ymgyfraniad adrannau a sefydliadau sy'n cael eu heffeithio gan y broses gaffael wrth osod amcanion llesiant (e.e. comisiynu, rheoli contract, rheoli cyflenwyr a gwastraff). Gallai hyn arwain at ddealltwriaeth cyrff cyhoeddus o'r manteision ehangach a'r camau y gallant eu cymryd i wella pob agwedd ar lesiant drwy gaffael. |

## 3.1. Adolygiad Adran 20 – crynodeb o ganfyddiadau

Roedd y dystiolaeth a gasglwyd yn y cyfnodau ymchwil ac Adolygu (ar gyfer y naw corff cyhoeddus sy'n destun yr Adolygiad) yn cynnwys archwilio materion yn ymwneud ag arweinyddiaeth, ymgorffori'r Ddeddf, effaith Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol (Mai 2020) ac effaith Covid-19. Hefyd, cyflwynir enghreifftiau o arfer da trwy gydol y canfyddiadau.

Mae'r prif faterion canlynol wedi'u nodi a bydd pob pwynt yn cael ei egluro'n fanylach yn Adran 3.2 ac Adran 3.3.

**Materion yn ymwneud yn uniongyrchol â Llywodraeth Cymru yn rhinwedd eu swydd fel arweinwyr.**

- Mae Llywodraeth Cymru wedi methu â dangos arweinyddiaeth gydgysylltiedig glir ar rôl caffael wrth gyflawni nodau llesiant cenedlaethol Cymru (ac amcanion llesiant cyrff cyhoeddus).
- Mae cyfathrebu ac integreiddio gwael rhwng gwahanol flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â diffyg cefnogaeth i gyrff cyhoeddus i sicrhau bod y rhain yn cael eu gweithredu'n effeithiol ar lawr gwlad.


- Mae cyfleoedd i wneud gwariant i weithio'n galetach yn cael eu colli oherwydd diffyg cefnogaeth i'r proffesiwn caffael a diffyg atebolrwydd ar lefel arweinyddiaeth.
- Nid oes unrhyw fonitro parhaus o ganlyniadau neu ymagweddau tuag at gaffael naill ai at ddibenion sylwi lle mae pethau'n mynd o chwith, a chyfleoedd yn cael eu colli, nac ar gyfer nodi a rhannu arfer gorau.

### Materion sy'n berthnasol i gyrff cyhoeddus

- Nid yw'r cyfleoedd i gyflawni ar bob un o'r pedwar dimensiwn llesiant yn cael eu macsimeiddio, yn aml oherwydd diffyg arweinyddiaeth ac ymagwedd strategol sy'n cydnabod 'pŵer prynu'.
- Mae'r "system gaffael" yn rhy aml yn arwain at ffocws ar broses a chostau tymor byr yn hytrach na chyflawni canlyniadau ehangach dros yr hirdymor, ac nid oes unrhyw ddull cyson o fesur y canlyniadau y gellir eu gwireddu yn unol â'r Ddeddf. Mae angen symud tuag at ystyried y gost hirdymor mewn dull holistig, yn unol â'r Ddeddf.
- Nid oes unrhyw fecanwaith ar gyfer hyrwyddo cydweithio effeithiol ar gyfer cyrff cyhoeddus, yn arbennig ar lefel traws-sector ar gyfer gwella rhannu, dysgu, gallu a sgiliau.

Er bod tystiolaeth gyffredinol bod y saith corff cyhoeddus a gafodd eu cyfweld yn cymryd camau i weithredu'r Ddeddf yn ystod y broses gaffael, mae'r Adolygiad wedi nodi nifer o heriau a rhwystrau i gaffael mewn modd cynaliadwy yn cynnwys:

- **Ymrwymiad sefydliadol, ymgyfraniad ac ymgysylltiad arweinyddiaeth - arweinwyr yn methu gweld caffael fel swyddogaeth bwysig neu offeryn i ysgogi cyflawni amcanion corfforaethol (llesiant).**
- **Adnoddau a gallu annigonol o fewn y swyddogaeth gaffael ac ymhlith gweithwyr proffesiynol caffael.**
- **Llywio'r hyn sydd wedi dod yn dirwedd cynyddol gymhleth.**



## 3.2. Canfyddiadau Llywodraeth Cymru (yn rhinwedd eu rôl fel arweinwyr)

### Mater: Mae Llywodraeth Cymru wedi methu â dangos arweinyddiaeth gydgysylltiedig glir ar rôl caffael wrth gyflawni nodau llesiant cenedlaethol Cymru (ac amcanion llesiant cyrff cyhoeddus).

Y sefyllfa bresennol: Un o'r cyfleoedd ar gyfer newid a amlinellwyd yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 y Comisiynydd yw y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu arweinyddiaeth sy'n cynorthwyo ymagwedd strategol tuag at gaffael, gan gydnabod 'pŵer prynu'.

Yn ystod trafodaethau gyda'r cyrff cyhoeddus, roedd consensws y dylai Llywodraeth Cymru fod yn arwain y ffordd wrth weithredu deddfwriaeth a pholisi, gan ddarparu cefnogaeth ymarferol i gyrff cyhoeddus eraill, ynghyd â monitro ac asesu sut y maent hwy, ac eraill, yn ystyried y Ddeddf yn eu gweithgareddau caffael.

Mae arweinyddiaeth ar y lefel genedlaethol a lleol yn anghyson ac nid yw arweiniad presennol yn ddigonol ar gyfer darparu'r cymorth angenrheidiol i ymgorffori'r Ddeddf. Disgwylir i lawer o gyrff cyhoeddus ddilyn y strategaeth gaffael genedlaethol; fodd bynnag, nid yw Datganiad Polisi Caffael Cymru (WPPS) wedi'i ddiweddaru ers 2015 ac nid yw'n adlewyrchu'r Ddeddf yn llawn. Rydyn ni'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru'n gobeithio cyhoeddi Datganiad wedi ei ddiwygio yn y dyfodol agos ac mae Swyddfa'r Comisiynydd wedi cyfrannu at y broses hon drwy roi cyngor.

Fodd bynnag, nid yw'n glir sut mae'r weledigaeth bresennol yn y Datganiad diwygiedig drafft yn gyson â phob agwedd, neu'n cynorthwyo amcanion uchelgeisiol, y Ddeddf:

**"Bydd caffael yn parhau i fod yn hwylusydd newid ac yn gyfrwng i gydweithredu gan adeiladu gweithgareddau masnachol a fydd yn meithrin marchnadoedd cyflenwi Cymreig bywiog ac yn cefnogi cymunedau cynaliadwy trwy ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd o fewn sector Cyhoeddus Cymru."**

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gaffael fabwysiadu ymagwedd llawer ehangach tuag at lesiant, tu hwnt i'r ymagwedd eithaf traddodiadol hon.

Ym Mawrth 2020 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r adroddiad "Cynnydd tuag at ddatblygu tirwedd caffael newydd yng Nghymru" sy'n rhoi diweddariad ar eu gwaith diweddar yn ogystal â nodi eu dull newydd o weithio wrth symud ymlaen. Er bod y Comisiynydd wedi cynnig adborth ar ddrafft o'r Adroddiad hwn, ni chafodd y Ddeddf ei hamlygu fel fframwaith allweddol sy'n sail i ymagwedd Llywodraeth Cymru ac mae'n enghraifft o 'gyfle a gollwyd' ar gyfer dangos i gyrff cyhoeddus sut y dylai'r Ddeddf fod yn fframwaith ar gyfer caffael cyhoeddus yng Nghymru gan ddangos cysylltiadau clir rhwng cyflawni polisi a'r saith nod llesiant cenedlaethol.

**Ers 2016, pan ddaeth y Ddeddf i rym, nid yw Llywodraeth Cymru wedi datblygu canllawiau holl gynhwysfawr neu fframwaith sy'n cynorthwyo cyrff cyhoeddus i ddefnyddio'r Ddeddf yn eu gweithgareddau caffael.**

Fodd bynnag, bu rhai datblygiadau o ran esblygu'r dull o gasglu gwerth cymdeithasol, cydweithredu wrth ddatblygu rhaglen gaffael genedlaethol a rhanbarthol gydgysylltiedig a meithrin gallu a chapasiti ehangach.

Yn ogystal ag ystyried sut mae eu penderfyniadau caffael hwy eu hunain yn cyflawni pob elfen o'r Ddeddf, mae gan Lywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (GCC) gyfrifoldeb i fonitro ac asesu sut mae cyrff cyhoeddus eraill yn ystyried y Ddeddf yn eu gweithgareddau caffael, yn arbennig trwy fframweithiau cenedlaethol.

Trwy weithio ar y cyd, mae'r GCC yn rheoli cyflwyno contractau a fframweithiau sector cyhoeddus Cymru gyfan ar gyfer nwyddau a gwasanaethau. Mae piblinell gyfredol y GCC yn dwyn ynghyd bŵer prynu sector cyhoeddus o oddeutu £0.5 biliwn ar gyfer categorïau o wariant cyffredin ac ailadroddus. Mae dros 70 o sefydliadau sector cyhoeddus yng Nghymru wedi cofrestru fel aelodau o'r GCC gan gynnwys yr holl awdurdodau lleol, y GIG, Senedd Cymru, Cyrff Llywodraeth Cymru a Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru (WGSBs), yr Heddlu a gwasanaethau Tân ac Achub a sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach.

Dywedodd adolygiad Llywodraeth Cymru yn 2018 "y bydd y GCC, dros amser, yn dod i ben" gan ymateb i farn cwsmeriaid "bod arnynt angen ymagwedd wahanol oedd yn darparu mwy o gymorth i alluogi cyflawni nodau a blaenoriaethau llesiant rhanbarthol a lleol". Nid yw'n glir pa gynnydd sydd wedi ei wneud i "sefydlu swyddogaeth cynorthwyo datblygiad a darpariaeth polisi cenedlaethol" fel yr amlinellir gan Ysgrifennydd Cyllid y Cabinet yn 2018.

Mae rhai cyrff cyhoeddus, yn arbennig y rhai â thimau caffael llai, yn manteisio ar y fframweithiau cenedlaethol hyn gan ddibynnu arnynt fel y lle cyntaf i droi ato ar gyfer rheoli caffael. Maen nhw o dan yr argraff bod fframweithiau'n cynnig rhwyd ddiogelwch ar gyfer sicrhau gwerth cymdeithasol ac yn tybio eu bod eisoes wedi ystyried y Ddeddf. Yn ystod yr Adolygiad, dywedodd un corff cenedlaethol "rydyn ni'n defnyddio, gymaint ag y gallwn, fframweithiau caffael llywodraeth leol sefydledig ac yn dibynnu ar asiantaethau eraill y llywodraeth i fod wedi ymgymryd ag asesiadau llesiant angenrheidiol wrth lunio'r fframweithiau y cytunwyd arnynt sydd ar waith".

Yn ystod Adolygiad Adran 20, pwysleisiodd cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru mai cyfrifoldeb cyrff cyhoeddus yw gwerthuso sut y gall defnyddio'r fframweithiau i gyfrannu at amcanion llesiant sefydliadol. Felly, tra gellir deall defnydd cyrff cyhoeddus o'r fframweithiau i gyflawni gwerth cymdeithasol, yn arbennig o ystyried y materion capasiti a wynebir ganddynt, nid yw'r fframweithiau ar eu pen eu hunain yn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol i 'gymryd pob cam rhesymol i gyflawni eu hamcanion llesiant.'


**Astudiaeth achos: Cyngor Sir Gaerfyrddin**

Arweiniodd Cyngor Sir Gaerfyrddin ar y tendr ar gyfer fframwaith Contractwyr Rhanbarthol De Orllewin Cymru (SWWRCF) ac roeddent yn awyddus i sicrhau bod cyfleoedd i gynyddu llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol pobl a chymunedau yn rhan annatod o'r Fframwaith. Mae hwn yn Fframwaith rhanbarthol sylweddol yn Ne Orllewin Cymru, gyda phrosiectau adeiladu yr amcangyfrifir eu bod yn werth £1biliwn yn cael eu dyfarnu drwyddo dros y cyfnod o 4 blynedd. Cynhyrchwyd 'Amcanion a Nodau' yn seiliedig ar y Ddeddf ac fe'u cynhwyswyd yn y Tendr i gyfleu eu dyheadau i bob un oedd yn tendro, a Chontractwyr a benodwyd wedi hynny. Mae'r ddogfen hon wedi helpu i arwain cyfleoedd ar lefel trefnu yn ôl y gofyn, ac yna gellir adeiladu ymhellach ar gyfleoedd prosiect unigol yn y cam nesaf.

**Astudiaeth achos: Cyngor Sir Gaerfyrddin (parhad)**

Mae'r ymrwymiad i'r Ddeddf ar lefel Fframwaith, a chymhwyso'r pum ffordd o weithio a'r saith nod llesiant cenedlaethol trwy gydol y broses gaffael, wedi arwain at dendr mwy cadarn ac ystyrlon ac wedi creu 'edefyn euraidd' lle mae nodau ac amcanion y prosiect yn gydnaws â'r Ddeddf ac yn cael eu hadlewyrchu ym mhob tendr. Er enghraifft, mae themâu arloesi, cynaliadwyedd, cydweithredu a buddion cymunedol yn ffurfio rhan allweddol o'r cwestiynau ansawdd a'r meini prawf sgorio dilynol a ofynnir i gontractwyr tendro eu cyflawni. Wrth wneud hynny, nod Sir Gaerfyrddin yw sicrhau bod digon o ystyriaeth yn cael ei rhoi i egwyddorion y Ddeddf, ynghyd â chyflawni diriaethol fel cyflwyno recriwtio a hyfforddiant wedi'i dargedu, a fydd yn meithrin ymgyfraniad ac effaith hirdymor, a hefyd gyfleoedd i'r gymuned trwy ddarparu gwasanaethau a swyddi.

Enghraifft o hyn yw'r un oddi wrth Fframwaith Contractwyr Rhanbarthol De Orllewin Cymru SWWRCF 2020 ar gyfer Pentre Awel - Parth 1. Wedi ei gyllido drwy fuddsoddiad Bargen Ddinesig a'r Cyngor, mae hwn yn cynnwys cyfleusterau cyhoeddus, academaidd, busnes, iechyd a hamdden i hybu cyflogaeth, addysg, darpariaeth gweithgareddau hamdden, ymchwil a darpariaeth iechyd, a sgiliau a hyfforddiant. Fel un sydd i fod i gael ei roi allan am dendr ym mis Chwefror 2021 amcangyfrifir ei fod yn werth £80 miliwn gyda Haf 2023 fel dyddiad cwblhau. Drwy ddatblygu'r gwaith a gwblhawyd gan y Tîm Prosiect ar ymgorffori'r Ddeddf o gyfnodau cyntaf cynllunio, maen nhw wedi ffrydio'r weledigaeth hon hyd at y cyfnod caffael ac wedi alinio ymhellach ymrwymiad y cyngor i facsimeiddio'r nodau llesiant a'u hamcanion hwy eu hunain.



**Gwersi allweddol**

- Maent yn sicrhau cyfathrebu clir a thryloywder ar nodau ac amcanion llesiant drwy gydol y broses dendro – “yr edefyn aur”.
- Mae themâu arloesedd, cynaliadwyedd, cydweithredu a manteision cymunedol yn ffurfio rhan allweddol o’r cwestiynau ansawdd a’r meini prawf sgorio dilynol y bydd yn ofynnol i gontractwyr tendrau eu cyflawni.

Amlygodd nifer o’r timau caffael a gyfranogodd yn Adolygiad Adran 20 eu hawydd i wneud pethau’n wahanol ond nodwyd ganddynt nad oeddent yn siŵr sut i wneud y Ddeddf yn rhan annatod ym mhob penderfyniad heb gymorth ychwanegol ac arweiniad cenedlaethol cyson. Dywedodd un corff nad oedd unrhyw ystyr i’w bwriad i gymryd camau ychwanegol i gyflawni gofynion y Ddeddf, yn cynnwys yr argymhelliad a amlinellir yn Adroddiad Cenedlaethau’r Dyfodol 2020 heb arweiniad strategol cyson. Wrth ddatblygu mentrau, canllawiau a phecynnau cymorth newydd, mae angen ystyried yn glir sut mae'r rhain yn cefnogi gweithgareddau caffael i gyflawni yn erbyn pob elfen o'r Ddeddf.

Mae Llywodraeth Cymru’n adolygu strwythur a dulliau llywodraethu caffael a’r trawsnewid o GCC a Gwerth Cymru i strwythur newydd. Mae Llywodraeth Cymru’n derbyn bod angen ail-flaenoriaethu a diweddaru rhai o’r pecynnau cymorth gweithredu polisi lle gwyddys bod Cymru ar un adeg yn rhagori, megis y Canllaw Llwybr Caffael.

**Argymhellion y Comisiynydd**

- Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Canolfan Ragoriaeth Caffael ar gyfer gwella cydgysylltu, cydweithredu, a darparu cymorth ymarferol i gyrff cyhoeddus wrth iddynt arfer eu swyddogaethau caffael, yn benodol mewn cysylltiad â’r Ddeddf. Byddai datblygu’r Ganolfan Ragoriaeth yn gofyn am adolygiad a diwygiad hollgynhwysfawr o’r tirwedd caffael presennol (strwythurau, rhwydweithiau, partneriaethau a mentrau) gan gyrchu’r adnoddau i adeiladu capasiti a chynorthwyo gweithredu.
- Dylai’r Rhaglen Lywodraethu nodi’n glir sut y bydd Llywodraeth Cymru’n darparu arweinyddiaeth Strategol ac ymrwymiad i gynorthwyo caffael i gyflawni canlyniadau ehangach, gan ddefnyddio iaith sy’n gyson â’r Ddeddf.
- Dylai Datganiad Polisi Caffael newydd Llywodraeth Cymru ddangos yn glir sut y bydd yn cynorthwyo cyrff cyhoeddus i gyflawni dyheadau’r Ddeddf ym maes caffael y sector cyhoeddus yng Nghymru. Dylai’r Datganiad hwn, ochr yn ochr â’r cynnydd yn narpariaeth ymrwymiadau gael eu hadolygu a'u hadrodd yn flynyddol.
- Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau fod pob fframwaith caffael cenedlaethol yn y dyfodol yn cyd-fynd â, ac yn cyfrannu at, y saith nod llesiant cenedlaethol ac yn defnyddio’r pum dull o weithio a nodwyd yn y Ddeddf.

**Y mater: Mae yna gyfathrebu ac integreiddio gwael rhwng gwahanol flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ochr yn ochr â diffyg argaeledd cymorth i gyrff cyhoeddus fedru sicrhau bod y rhain yn cael eu gweithredu'n effeithiol ar lawr gwlad.**

Y sefyllfa bresennol: Mae caffael cyhoeddus yn gweithredu o dan gyfundrefn reoleiddio, y rheoliadau Contractau Cyhoeddus, ond gyda sylw cynyddol i ymgorffori gwerth cymdeithasol a llesiant i fewn i caffael, mae llawer o'r farn bod y tirlun polisi wedi dod yn gymhleth gyda set helaeth o offer, canllawiau a blaenoriaethau yn dod oddi wrth Lywodraeth Cymru. Drwy gydol y cyfnod ymchwil ac Adolygiad Caffael Adran 20, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynorthwyo nifer o fentrau sy'n berthnasol i, ac yn cynorthwyo, caffael blaengar yn cynnwys yr economi sylfaenol, partneriaethau cymdeithasol, economi cylchol, gwerth cymdeithasol, ac adeiladu cyfoeth cymunedol.

Mae yna rai ymagweddau arloesol yn cael eu mabwysiadu i ystyried y Ddeddf, ond ymddengys eu bod yn ddiffygiol mewn cysylltedd strategol. Er bod canllawiau ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru wrth weithredu mentrau cenedlaethol yn ddefnyddiol, pan nad yw hyn yn cael ei gydgysylltu na'i esbonio yng nghyd-destun y Ddeddf, neu'n gysylltiedig â meysydd polisi perthnasol eraill gall achosi dryswch a gwneud y dirwedd sydd eisoes yn gymhleth hyd yn oed yn anoddach i gyrff cyhoeddus lywio drwyddo.

Mae enghreifftiau o fentrau cenedlaethol perthnasol a fyddai'n elwa o integreiddio a chydgysylltu pellach yn cynnwys:

- Gwerth Cymru a'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol – creu fframweithiau newydd a rheoli'r rhai sy'n bodoli eisoes tra'n newid i drefniadau newydd;
- Ffocws ar yr Economi Sylfaenol drwy Fwrdd Cynghori Gweinidogol newydd, Cronfa Her Economi Sylfaenol, Cymuned Arfer a phanel arbenigol ar gaffael;
- Partneriaeth â'r Ganolfan Strategaethau Economaidd Lleol, gan ffocysu ar adeiladu cyfoeth cymunedol a chynorthwyo clystyrau o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gryfhau cadwyni cyflenwi lleol;
- Creu hwb Gwybodaeth ac adnewyddu Datganiad Polisi Caffael Cymru;
- Diweddaru Pecyn Cymorth Budd i'r Gymuned a chynorthwyo gweithrediad fframwaith gwerth cymdeithasol Cymru (TOMS – Themâu, Canlyniadau a Mesurau);
- Gweithio gyda Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi i ddatblygu hyfforddiant caffael pellach;
- Sefydlu Tîm Peirianneg Gofynion Offer Critigol (CERET) yn ystod COVID-19;
- Datblygu Dangosfwrdd Datgarboneiddio ar gyfer caffael;
- Papur Gwyn 'Cymru sy'n Fwy Cyfartal: Cryfhau Partneriaethau Cymdeithasol' sy'n cynnig 'Bil i gryfhau ein trefniadau partneriaethau cymdeithasol' yn cynnwys gofyniad i 'gyrff cyhoeddus penodol gynhyrchu strategaeth gaffael yn unol â chanllawiau statudol'.

Bydd angen i'r Bil Partneriaethau Cymdeithasol, sydd ar ddod, sicrhau bod y ddyletswydd gaffael newydd a osodir ar gyrff cyhoeddus yn eu cynorthwyo i gyflawni canlyniadau a fydd yn eu helpu i wireddu eu hamcanion llesiant ac, yn ei dro, y nodau llesiant cenedlaethol.

# Astudiaeth achos

**Astudiaeth achos: Cronfa Her yr Economi Sylfaenol**

Mae'r economi cylchol yn disgrifio'r swyddi sydd wrth wraidd ein cymunedau lleol, ar draws sectorau megis gwasanaethau gofal ac iechyd, bwyd, tai, ynni, twristiaeth, adeiladu a manwerthu. Mae'r rhan hon o'r economi yn cyfrif am bedair o bob deg swydd a £1 ym mhob £3 sy'n cael ei wario. Llynedd buddsoddodd Llywodraeth Cymru £4.5 miliwn mewn Cronfa Her yr Economi Sylfaenol sydd ar hyn o bryd yn cynorthwyo 52 o brosiectau sy'n treialu dulliau newydd ac arloesol o wneud yr economi bod dydd i weithio'n well i bob cymuned yng Nghymru. Yn ddiweddar maent wedi ymrwymo i £3 miliwn o gyllid ychwanegol i alluogi parhad y gwaith hwn. Rhoddwyd cymorth ariannol i:

- ELITE Paper Solutions, menter gymdeithasol ym Merthyr Tudful sy'n arbenigo mewn rheoli storio dogfennau a rhwygo data. Maen nhw wedi llwyddo i ddatblygu gweithle cwbl gynhwysol, sydd yn awr yn cyflogi cyfanswm o 39 y gallai llawer ohonynt hwyrach fod wedi eu heithrio o'r farchnad lafur, oherwydd anabledd, cyflyrau iechyd neu ddiweithdra hirdymor. Drwy ennill tri chontract mawr y sector cyhoeddus maen nhw wedi cynyddu eu refeniw o £90,000 ac wedi recriwtio 6 aelod pellach o staff. Mae ELITE yn fudd cymunedol sydd wedi deillio o fframwaith cenedlaethol Cyflenwadau Swyddfa y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol.
- Mae Gofal Cymunedol Cydweithredol yn Wrecsam sydd wedi eu contractio gan y bwrdd iechyd lleol i redeg tair meddygfa, wedi datblygu model gofal sylfaenol newydd yn seiliedig ar helpu cleifion i gyrchu cymorth. Maent wedi recriwtio tîm llesiant emosiynol i ddarparu cymorth llesiant i gleifion a hyn wedi arwain at leihad o 57% mewn atgyfeiriadau at sefydliadau iechyd meddwl eraill.
- Mae cyngor Bro Morgannwg wedi llwyddo i wella eu prosesau caffael ac wedi ymgysylltu â dros 1,000 o fusnesau ers Mehefin 2020 i gynyddu'r nifer o Fusnesau Bach a Chanolig sy'n cyflawni contractau'r cyngor gan arwain at gadw mwy o arian o fewn yr economi lleol.

Ochr yn ochr â'r Gronfa Her mae Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth wedi sefydlu Bwrdd Cynghori Gweinidogol a phecyn cymorth ymarferol gan ddefnyddio arbenigwyr yng Nghanolfan Strategaethau Economaidd Lleol sy'n gweithio gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i'w helpu i ddatblygu eu hymagwedd tuag at gaffael yn yr economi sylfaenol gyda ffocws ar 'adeiladu cyfoeth cymunedol'. Mae'r cymorth ymarferol hwn i'w groesawu ond ar hyn o bryd mae wedi ei ddatgysylltu oddi wrth fentrau eraill y Llywodraeth. Byddai Caffael y Sector Cyhoeddus yn elwa o becyn cymorth mwy sy'n integreiddio pob agwedd ar y Ddeddf a rhaglenni perthnasol y Llywodraeth.

# Astudiaeth achos

**Astudiaeth achos: Caffael Bwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin**

Mae gan Sir Gaerfyrddin hanes cyfoethog o gynhyrchu a chyflenwi bwyd, ond cydnabyddir bod cyfle i sefydliadau'r sector cyhoeddus wneud mwy o gyfraniad i'r gadwyn gyflenwi leol trwy newid eu hymagwedd tuag at gaffael a gwneud pethau'n wahanol. Gallai caffael bwyd cyhoeddus clyfar ddarparu Difidend Dwbl:

- Difidend economaidd trwy sicrhau contractau cyflenwi ar gyfer cwmnïau micro, busnesau bach a chanolig lleol neu ranbarthol;
- Difidend iechyd trwy hyrwyddo bwyd da i bawb, yn arbennig mewn ysgolion a cholegau, lle mae dinasyddion yfory wrthi heddiw yn ennill eu sgiliau, eu harferion a'u chwaeth.




© Ungry Young Man

Gan elwa o Wobr Cronfa Her yr Economi Sylfaenol, bydd y prosiect yn sefydlu ffordd newydd o weithio nid yn unig i’r sector bwyd ond o bosib yr holl nwyddau a gwasanaethau a gaffaelir gan y sector cyhoeddus. Mae’r Ddeddf yn darparu cyfle ardderchog i brofi a herio, a thrwy ddefnyddio’r pum dull o weithio fel fframwaith arweiniol mae yna gyfle i gael effaith arwyddocaol ar lesiant cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol Sir Gaerfyrddin.



**Gwersi Allweddol**

- Mae arbrofi a ariennir gan Lywodraeth Cymru wedi cyflymu cynnydd cyrff cyhoeddus i gymryd camau i gyflawni amcanion llesiant.
- Mae ffocws ar yr Economi Sylfaenol yn ymagwedd effeithiol ar gyfer ymgorffori llesiant a gwerth cymdeithasol mewn caffael, ond mae angen ei gysylltu'n well â mentrau eraill yn ogystal â'r Ddeddf.

Tra bod Llywodraeth Cymru'n datblygu canllawiau ar gyfer y sector cyhoeddus, er enghraifft ar gyflawni gwerth cymdeithasol ac ymgorffori'r Ddeddf, oni bai ei bod wedi'i hintegreiddio â'r canllawiau sy'n bodoli eisoes, fe'i hystyrir yn faich ychwanegol. Mae adborth gan gyrff cyhoeddus yn dangos bod angen mwy o gymorth ymarferol ar weithredu.

Mae yna fater arwyddocaol ynghylch terminoleg a diffiniadau - mae yna amrywiaeth o wahanol dermau'n cael eu defnyddio, yn aml gydag amwysedd ynglŷn â'u hystyr a sut i'w rhoi ar waith, megis cysondeb wrth gydweithredu a deall gwerth cymdeithasol, gyda diffyg cyffredinol wrth gydgysylltu yn ôl at y Ddeddf.

Mae hyn yn arwain at ddiffyg eglurder i ymarferwyr caffael am y modd y mae'r gwahanol fentrau hyn yn cysylltu â'i gilydd, ac mae'r diffyg cydgysylltu hwn wedi ei amlygu mewn fforymau caffael gan weithwyr proffesiynol nad ydynt yn medru gweld ym mha fodd y mae'r canlyniadau yn ystyrlon neu effeithiol. Heb eglurder oddi wrth Lywodraeth Cymru a chydgysylltiad rhwng y gweithgareddau hyn, mae gweithwyr caffael proffesiynol yn gorfod cyfleu'r cysylltiadau rhwng y gwahanol fentrau hyn, a'u canlyniadau.

Mae'r tirwedd cymhleth hwn hefyd yn dwysáu'r blaenoriaethau cystadleuol y mae timau caffael eisoes yn eu rheoli ac mae diffyg arweiniad cyson yn gadael cyrff cyhoeddus yn ansicr ynglŷn â pha weithrediadau i'w blaenoriaethu. Enghraifft o hyn yw bod dyheadau datgarboneiddio clir wedi eu hamlinellu yn ystod trafodaeth ar Adolygiad Adran 20 gydag un o'r cyrff cyhoeddus, ond nid oeddent yn gwybod sut i flaenoriaethu hyn gydag adnoddau cyfyng.

**Caffael mewn Argyfwng Hinsawdd**

Mae gwaith a wnaed gan Cyfoeth Naturiol Cymru a Phartneriaeth Rhannu Gwasanaethau GIG Cymru i gyfrifo ôl-troed carbon eu gweithgareddau wedi dangos bod caffael yn cyfrannu bron i 60% a 49%, yn ôl eu trefn, o'u hallyriadau cyffredinol, sy'n fwy na'r allyriadau sy'n cael eu creu gan y defnydd o ynni mewn adeiladau a thrafnidiaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod uchelgais i'r sector cyhoeddus fod yn garbon-niwtral erbyn 2030, sy'n gymeradwy, ac mae cyngor diweddaraf Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd wedi awgrymu targedau lleihau allyriadau uchelgeisiol i Gymru fod Sero-Net erbyn 2050. Fodd bynnag, nid yw'r glir sut mae caffael ar hyn o bryd yn cael ei ddefnyddio i gyflawni ein targedau newid hinsawdd. Er bod Llywodraeth Cymru wedi datblygu canllawiau yn ddiweddar ar gyfer y sector cyhoeddus ar ddatgarboneiddio fel adnodd defnyddiol - mae Nodyn Cyngor Caffael Dangosfwrdd Datgarboneiddio sy'n galluogi cyrff cyhoeddus i ddadansoddi dwysedd carbon eu gwariant, yn ychwanegu at y llu o ganllawiau presennol ac os na chaiff ei integreiddio â gofynion eraill gellir ei weld fel baich ychwanegol.

Mae rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif yn rhoi cyfle i gyrff cyhoeddus gyflwyno canlyniadau sydd wedi eu cysylltu y Deddf. Drwy ein hymchwil, rydyn ni wedi gweld tystiolaeth gan rai cyrff cyhoeddus sy'n cyflawni canlyniadau'n unol â'r Ddeddf, megis ysgolion carbon isel/sero. Rhannodd un awdurdod lleol astudiaeth achos ar adeiladu ysgol a gomisiynwyd am £7 miliwn, gyda gofyniad i'r prosiect ennill ardystiad Passivhaus.

Gwnaethant ddarparu tystiolaeth eu bod wedi ystyried pob un o'r pum dull o weithio ac eglurhad o'r modd y mae'r prosiect yn cyflawni deg o'r 15 amcan llesiant yn cynnwys gofalu am yr amgylchedd yn awr ac yn y dyfodol, hyrwyddo'r iaith a diwylliant Cymraeg yn ogystal â helpu plant i fyw bywydau iach. Rwyf hefyd yn croesawu £5m o arian cyfalaf yng nghyllideb ddrafft 2021-22 i fwrw ymlaen â Phrosiect Peilot Dim Carbon i ddatgarboneiddio ysgolion a cholegau yng Nghymru. Bydd Ysgol Gynradd Llancarfan, ym Mro Morgannwg, yn cael ei chwblhau yn ddiweddarach eleni a hi fydd Ysgol Garbon Sero-Net gyntaf Cymru.

Fodd bynnag, nid yw'r arfer da hyn yn digwydd yn gyson, ac rydyn ni'n dal i weld gwahaniaethau yn yr ymagwedd a fabwysiedir gan gyrff cyhoeddus. Mae adborth oddi wrth y sector adeiladu wedi amlygu prosiectau, yn cynnwys ysgolion newydd, nad ydynt yn chwilio am gyfleoedd i gyfrannu at bob un o'r nodau llesiant cenedlaethol. Mae angen i Lywodraeth Cymru ddarparu ymrwymiad clir, drwy eu Model Buddsoddi Cydfuddiannol a rhaglenni seilwaith arwyddocaol eraill, i sicrhau y bydd pob adeilad a ariennir yn gyhoeddus yn ddi-garbon yn y dyfodol gan facsimeiddio'u cyfraniad i bob un o'r saith nod llesiant, yn hytrach na dim ond ystyried y defnydd o ynni neu fanteision cymunedol, fel y bydd y prosiect peilot sy'n cael ei gynorthwyo yn dod yn arfer normal ledled Cymru.

**Astudiaeth Achos: Prosiect Cydweithredol i Ddatblygu System Ddylunio Warantedig ar gyfer Cyflenwi Cartrefi Di-garbon Pren, ar y Raddfa ofynnol.**

Yn ei ail gyfarfod ar 2ail Hydref 2020, cefnogodd Fforwm Datblygu Tai Cyngor Cymru gynnig gweithio ar y cyd i gychwyn gwaith ar ddatblygu llyfr patrwm o ddyluniadau tai ffrâm bren ddi-garbon a chydweithio i sefydlu clwb caffael i brynu'r cartrefi'n uniongyrchol oddi wrth y gweithgynhyrchwyr. Mae'r prosiect Partneriaeth Arloesedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r 11 Awdurdod Lleol gymryd rhan yn y gwaith hysbysebu a chaniatáu contract i ddatblygu'r system gyda dylunwyr a gweithgynhyrchwyr. Ar ôl i'r Bartneriaeth Arloesedd ddod i ben, bydd y Cynghorau'n caniatáu contract i ddarparu cartrefi di-garbon am gyfnod o 5 mlynedd. Argymhellir caniatáu contract 5 mlynedd i roi sicrwydd llyfr archebion i gyflenwyr, gan eu galluogi i fuddsoddi mewn safleoedd ac offer newydd, gan arwain at arbedion maint, a ddylai alluogi pris cartrefi i leihau dros oes y contract.

**Argymhellion y Comisiynydd:**

- Dylai Llywodraeth Cymru adolygu pob canllaw a phecyn cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd i gynorthwyo caffael cynaliadwy a mesur/monitro manteision cymunedol ac/neu werth cymdeithasol, a chyhoeddi cynllun clir yn amlinellu sut y bydd y rhain yn cael eu diwygio a'u cadarnhau i alluogi ymagwedd gyson, i'w dilyn gan gyrff cyhoeddus wrth adrodd ar y canlyniadau llesiant sy'n cael eu cyflawni.
- Er mwyn gwireddu targedau allyriadau carbon dylai pob corff cyhoeddus ddatgan yn glir sut y maent wedi ystyried effaith carbon eu penderfyniadau caffael ac mewn achosion contractau adeiladu neu seilwaith ddangos yn glir ei bod yn ofynnol i gynlluniau fod yn carbon sero-net dros eu hoes.

## Y mater: Mae cyfleoedd i beri i wariant weithio'n galetach yn cael eu colli oherwydd diffyg cymorth i'r proffesiwn caffael a diffyg atebolrwydd ar lefel arweinyddiaeth.

Y sefyllfa bresennol: Cyn medru cyflawni caffael cynaliadwyedd ledled y sector cyhoeddus yng Nghymru mae gofyn cael cymorth arweinyddiaeth: uwch eiriolwyr a fydd yn gosod gweledigaeth strategol, yn ymrwymo i greu newid, yn perchnogi targedau ac yn sbarduno arfer da drwyddi draw yn eu sefydliadau. Mae'r Ddeddf yn rhoi cyfle i gyflawni caffael arloesol; caffael sy'n ffocysu ar werth hirdymor a gwireddu gwell canlyniadau i Gymru. Mae'r dystiolaeth bod hyn yn digwydd yn anghyson, ac nid oes strwythur na mecanwaith yn bodoli i fonitro neu adrodd ar y canlyniadau sy'n cael eu cyflawni o'r gwariant £6.3 miliwn.

Nodir bod sicrhau mewnbwn uwch arweinyddiaeth sefydliadol yn heriol oherwydd 'y blaenoriaethau niferus eraill sy'n cystadlu' a 'materion cyllidebu'. Mae'r sefyllfa hon yn cael ei chymhlethu gan yr ymateb cychwynnol adweithiol a thameidiog i argyfwng COVID-19 a'r trawsnewid sydd ar ddod yn dilyn Brexit. Yn ystod un cyfweliad, dywedodd Cyfarwyddwr Cyllid mae eu blaenoriaeth yw ychwanegu gwerth o bersbectif llywodraethu ac archwilio, gyda ffocws ar gyflawni 'gwerth am arian,' yn hytrach na chynaliadwyedd, gan fynd ymlaen i ddweud "Rôl y tîm caffael yw rheoli perthynas rhwng pobl a gweithredu gwaith sylfaenol". Heb gydnabyddiaeth o'r Ddeddf fel mater strategol i'w blaenoriaethu ar lefel uwch mewn cyrff cyhoeddus ac yn Llywodraeth Cymru, bydd unrhyw fentrau i wneud y Ddeddf yn rhan annatod o weithgareddau caffael yn aflwyddiannus, gan gynnwys yr argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad hwn.

Dywedodd un corff cyhoeddus eu bod "fel 'stiwardiaid arian', yn gorfod sicrhau mai cost yw'r ffactor sy'n sbarduno canlyniadau caffael." Mae rhai cyrff cyhoeddus o'r farn ei bod yn rhatach i gaffael nwyddau o'r tu allan i Gymru ac na ellir cyfiawnhau gwariant ychwanegol yn deillio o gyrchu adnoddau lleol. Fodd bynnag, mae yna dystiolaeth bod cyrff cyhoeddus eraill yn barod i flaenoriaethu gwariant yn yr economi lleol gan fod hyn yn arwain at fanteision ehangach. Mae'r ffocws ar gost tymor byr a 'gwerth am arian' yn hytrach nag ar fanteision ehangach y gellid eu cyflawni, yn cyfyngu cyfleoedd i arian cyhoeddus gyfrannu tuag at saith nod llesiant Cymru a hyn yn dangos na ellir gwireddu caffael, fel offeryn ar gyfer sicrhau'r canlyniadau gorau i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol, heb gefnogaeth uwch arweinyddiaeth.

Mae'r Adolygiad hefyd wedi dangos mai anaml y mae enghreifftiau sy'n amlygu cyfraniad caffael i bob un o saith nod llesiant Cymru'n cael eu rhannu. Yn yr un modd, nid oes digon o'r enghreifftiau hyn yn bodoli sy'n ffocysu ar gyflawni'r canlyniadau gorau ar draws pob un o bedwar dimensiwn llesiant (economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol) oherwydd bod blaenoriaeth yn cael ei roi yn aml i wireddu 'gwerth am arian' neu 'tendr sydd o'r fantais economaidd fwyaf'. Fodd bynnag, mae nifer o sefydliadau wedi datblygu'r agenda 'Manteision Cymunedol' ac rydyn ni'n cychwyn gweld enghreifftiau o gontractau sy'n gosod mwy o bwyslais ar werth cymdeithasol drwy gymhwyso fframwaith Themâu, Canlyniadau a Mesurau newydd (TOMs). Mae angen cefnogaeth uwch arweinyddiaeth pellach sy'n grymuso'r proffesiwn caffael i sbarduno a rhannu arfer da.

**Argymhellion y Comisiynydd:**

- Dylai'r Ganolfan Ragoriaeth Caffael adolygu a diwygio strwythurau ar gyfer atebolrwydd cenedlaethol a sefydlu mecanwaith priodol i graffu ar gynnydd mewn gweithredu. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn flynyddol ar y modd y mae gwariant cenedlaethol cyffredinol yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol.
- Hefyd, dylai eu hadroddiad blynyddol (ar gynnydd gyda'r Ddeddf) ddatgan yn glir sut y mae eu holl wariant caffael a'u gwariant grantiau hwy eu hunain yn cyfrannu at gyflawni eu hamcanion llesiant, ac yn ei dro, y saith nod llesiant cenedlaethol.

## Y mater: Nid oes unrhyw fonitro parhaus o ymagweddau tuag at gaffael nac o ganlyniadau caffael naill at ddibenion sylwi ar ble mae pethau'n mynd o chwith, a chyfleoedd yn cael eu colli, nac ychwaith ar gyfer adnabod a rhannu arfer gorau.

Y sefyllfa bresennol: Nid yw cyrff cyhoeddus bellach yn ennill y cymorth angenrheidiol oddi wrth Lywodraeth Cymru sy'n ofynnol ar gyfer macsimeiddio cyfleoedd i sicrhau manteision cymunedol, gwerth cymdeithasol a chanlyniadau caffael ehangach sy'n cynorthwyo'r uchelgeisiau yn y Ddeddf.

Yn ystod y trafodaethau gyda chyrff cyhoeddus rhwystr allweddol i weithredu'r Ddeddf a nodwyd yn gyson oedd y nifer mawr o ddulliau o adrodd a ddefnyddiwyd, heb fawr o adborth oddi wrth Lywodraeth Cymru am y canlyniadau sy'n cael eu cyflwyno fel canlyniad. Un enghraifft o hyn yw'r pecyn cymorth Buddion Cymunedol (a gyhoeddwyd gyntaf yn 2011 ac sydd yn awr ar ei nawfed iteriad), sydd wedi ei fwriadu i helpu cyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru i nodi amcanion sydd o fudd i'r gymuned y gellir eu cyflawni fel rhan o'u contractau, a dangos sut mae'r canlyniadau economaidd a chymdeithasol hyn yn cefnogi cyflawni'r Ddeddf. Mae cyrff cyhoeddus yn cyflwyno'r wybodaeth hon i Lywodraeth Cymru ond nid ydynt yn derbyn unrhyw adborth; "mae'n mynd i mewn i dwll du".

Gwnaethant fynegi rhwystredigaeth gyda'r diffyg adborth gan fod hyn yn golygu bod cyfleoedd posibl wedi eu colli i ddarparu buddion cymunedol, yn ogystal â methiant i rannu unrhyw enghreifftiau o arfer da. Amlygodd y cyfweliad gyda gweision sifil Llywodraeth Cymru nad oes ganddynt yr adnoddau na'r gallu i fonitro ac asesu'r camau a gymerir gan gyrff cyhoeddus i ddarparu buddion cymunedol drwy ddefnyddio'r pecyn cymorth, nac yn wir unrhyw gamau eraill y maent yn eu cymryd i ymgorffori'r Ddeddf.



© iStockphoto

Fel yr amlygwyd eisoes, mae Llywodraeth Cymru, dros nifer o flynyddoedd, wedi cynorthwyo llawer o fentrau wedi eu dylunio i gynorthwyo darpariaeth caffael cynaliadwy a blaengar (Adeiladu Cyfoeth Cymunedol, yr Economi Sylfaenol a TOMS o dan arweiniad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru); fodd bynnag mae'r ystod o offer adrodd sydd ar gael i sicrhau canlyniadau caffael, ynghyd â diffyg adborth ar eu gweithredu oddi wrth Lywodraeth Cymru a diffyg cyfle i rannu a dysgu, wedi arwain at ymagwedd anghyson tuag at ddefnyddio'r Ddeddf a hefyd ansicrwydd o beth yn union yw arfer da. Amlygodd pob un o'r cyrff cyhoeddus a gyfranogodd yn yr Adolygiad Adran 20 yr angen am fecanwaith i rannu enghreifftiau o fywyd go iawn a'r gwersi a ddysgwyd wrth gymryd camau i ystyried gofynion y Ddeddf yn ystod comisiynu, caffael a rheoli contract.

Roedd gweithwyr proffesiynol caffael hefyd yn teimlo amharodrwydd i rannu gwersi a ddysgwyd o ymdrechion aneffeithiol i ymgorffori'r Ddeddf yn y broses gaffael gyda rhwydweithiau caffael a/neu fforymau. Un enghraifft o'r fath yw lle'r oedd dau gorff cyhoeddus yn dymuno caffael ffynhonnau yfed mewn man cyhoeddus, fel enghraifft o'r hyn sy'n bosibl pan fyddir yn caffael ar y cyd, gan ystyried canlyniadau drwy lens y Ddeddf. Fodd bynnag, roedd yna rwystrau cyfreithiol na ellid eu goresgyn yn atal caffael rhag symud rhagddo. Mae'r enghraifft hon yn pwysleisio pa mor anodd y gall fod i gyflawni canlyniadau cadarnhaol hirdymor pan na fydd pob adran sy'n ymgyfrannu yn y broses gaffael wedi mabwysiadu meddylfryd 'gallaf-wneud'. Dylid cymeradwyo dulliau arloesol o ymgorffori'r Ddeddf, dylid annog cyrff cyhoeddus i fod yn fentrus, ac mae angen cymorth pellach gan Lywodraeth Cymru i facsimeiddio cyfleoedd i gyflawni buddion cymunedol, gwerth cymdeithasol a buddion ehangach sy'n gydnaws â'r Ddeddf.

**Argymhellion y Comisiynydd:**

- Dylai Canolfan Ragoriaeth Caffael ddatblygu mecanwaith neu offer i gynorthwyo cyrff cyhoeddus i fonitro ac adrodd yn gyson ar y Ddeddf (gan adeiladu o bosib ar y gwaith sy'n cael ei wneud ar werth cymdeithasol a'r fframwaith TOMs newydd) gan ddangos sut mae eu gwariant caffael yn cyflawni'r nodau a'r amcanion llesiant.
- Dylai Llywodraeth Cymru fonitro cynnydd a wneir gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Rhaid i hyn gael ei adrodd mewn adroddiadau blynyddol ar gyflawni eu hamcanion llesiant i Lywodraeth Cymru, o safbwynt canlyniadau cyffredinol sy'n cael eu cyflawni ledled Cymru, a gan gyrff cyhoeddus unigol.

National TOMs Wales
TOMs Cenedlaethol Cymru

## 3.3. Canfyddiadau Cyrff Cyhoeddus

Tra bo'r materion a nodwyd uchod yn ffocysu ar Lywodraeth Cymru, mae llawer hefyd yn berthnasol i gyrff cyhoeddus yn cynnwys yr angen am ymagwedd strategol gyda chefnogaeth uwch arweinyddiaeth ac ymrwymiad sy'n cydnabod y rôl y gall caffael ei chwarae yn y dasg o gefnogi cyflawni canlyniadau ehangach. Rydyn ni'n cydnabod nad yw materion a nodwyd ar lefel cenedlaethol bob amser yn ei gwneud hi'n hawdd i gyrff cyhoeddus gaffael yn unol â'r Ddeddf; fodd bynnag mae gan bob un o'r cyrff cyhoeddus rôl i'w chwarae yn y dasg o nodi a chyflawni'r canlyniadau ehangach hyn i sicrhau bod eu gwariant caffael yn cyfrannu tuag at gyflawni eu hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant cenedlaethol.

Yn ogystal ag amrywiaeth o fentrau heb eu cydlynu gan Lywodraeth Cymru, ar hyn o bryd mae yna hefyd ddiffyg eglurder cytunedig ar y meysydd canlynol sy'n ychwanegu at y tirwedd caffael cymhleth y mae timau'n ceisio eu llywio.

- Dadansoddi data – mae cyrchu data cywir ac amserol yn heriol mewn sefydliadau lle mae adnoddau a sgiliau dadansoddi'n cael eu cyfyngu. Adroddir bod cyfathrebu mewnol hefyd yn ffactor allweddol yn hyn o beth.
- Hyfforddiant i staff nad ydynt yn ymwneud â chaffael - cynhaliwyd rhai o'r trafodaethau gorau gyda chyrff cyhoeddus oedd yn cynnwys ymgyfraniad adrannau eraill tu hwnt i gaffael yn unig. Mewn rhai cyrff cyhoeddus roedd adnoddau mor gyfyng fel nad oedd yn ymarferol i gael swyddogaeth gaffael arunig.
- Tensiwn rhwng proses a chanlyniadau - mae'n heriol i weithwyr caffael proffesiynol gyflawni canlyniadau cadarnhaol hirdymor, yn unol â'r Ddeddf, pan fydd gan gyrff cyhoeddus gapasiti cyfyng ac/neu lle nad yw caffael a chomisiynu'n cydweithio'n effeithiol.
- Canfyddiad a chaffael - cyflwynir rhwystrau niferus drwy fethu cael cydnabyddiaeth oddi wrth arweinyddiaeth sefydliadol, yn ogystal ag adrannau eraill, o rôl strategol y broses gaffael yn y broses o gymryd camau i gwrdd â gofynion y Ddeddf. Golyga hyn bod caffael nwyddau a gwasanaethau mewn dull mwy cynaliadwy yn dod yn anoddach ac yn cymryd mwy o amser.

### Materion sy'n benodol i gyrff cyhoeddus:

### Y mater: Nid yw cyfleoedd i gyflawni pob un o bedwar dimensiwn llesiant yn cael eu macsimeiddio, yn aml oherwydd diffyg arweinyddiaeth ac ymagwedd strategol sy'n cydnabod 'pŵer prynu'.

Dangosodd pob corff cyhoeddus fod rhai camau'n cael eu cymryd i ystyried llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol neu ddiwylliannol. Mae'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus sy'n ymgorffori egwyddorion y Ddeddf yn canolbwyntio ar gyflawni'r nodau llesiant a dim ond un corff cyhoeddus wnaeth ffocysu ar facsimeiddio eu cyfraniad trwy gymhwyso'r dulliau o weithio.

Datgelodd trafodaethau'r cyfweliadau enghreifftiau lle mae cyrff cyhoeddus yn cymryd camau i ystyried y Ddeddf mewn penderfyniadau caffael, ac eraill lle mae ymgorffori'r Ddeddf wedi gwastatáu oherwydd cyfnod argyfwng COVID-19, diffyg dealltwriaeth, teimlad o fod wedi eu

gorlethu, adnoddau cyfyng a diffyg cyffredinol mewn cymorth canolog.

Roedd llawer o gyrff yn medru dangos sut yr oeddent wedi ystyried materion megis lleihau gwastraff, allyriadau carbon a chyflogaeth leol, ond prin oedd y cyrff cyhoeddus a gydnabu bwysigrwydd aliniad clos gyda'u hamcanion llesiant unigol hwy eu hunain. Prin fod unrhyw un o'r cyrff cyhoeddus a gyfranogodd yn yr Adolygiad Adran 20 yn medru egluro sut yr oedd eu hymagwedd tuag at gaffael yn eu helpu i gyflawni amcanion ehangach hirdymor, er enghraifft sut y gallent gaffael cynnyrch arbennig â llai o effaith carbon, sut y gallent gynorthwyo twf mewn swyddi a sgiliau yn yr economi lleol sydd yn ei dro yn cynorthwyo amcanion yn ymwneud â mynd i'r afael â thlodi a gwella iechyd. Nid oedd ychwaith unrhyw un oedd yn medru dangos sut yr oeddent wedi ennyn ymgyfraniad dinasyddion yn y broses.

Mae angen gwneud gwaith pellach o hyd ar draws y cyrff cyhoeddus i ymgorffori holl elfennau'r Ddeddf yn llawn ac alinio eu canlyniadau caffael â'u hamcanion llesiant sefydliadol.

Er enghraifft, dangosodd un corff cyhoeddus eu bod yn cymryd camau i fodloni ysbryd y Ddeddf trwy rannu'r hyn y maent yn ei ystyried yn 'enillion cyflym' gan gynnwys caffael cyllyll a ffyrc a chwpanau y gellir eu compostio. Er bod croeso i'r camau y maent wedi eu hystyried i hyrwyddo cynaliadwyedd, mae angen iddynt hefyd fod yn dangos sut y maent wedi ystyried caffael mewn ffordd sy'n eu helpu i gyflawni eu hamcan llesiant i fod yn "sefydliad enghreifftiol sy'n gyrru diwylliant sy'n hyrwyddo llesiant, cydraddoldeb, a chynaliadwyedd". Mae'r canfyddiad hwn yn dangos y gallai fod yna gyfleoedd sy'n cael eu colli i yrru cynnydd mewn cyflawni amcanion sefydliadol trwy benderfyniadau caffael.

**Astudiaeth Achos – Cyngor Caerdydd**

Yn seiliedig ar y Ddeddf, a gyrwyr polisi eraill, mae Cyngor Caerdydd yn amlinellu eu chwe blaenoriaeth caffael a sut y byddant yn cael eu cyflawni drwy eu Polisi Caffael sy'n Gyfrifol yn Gymdeithasol, gan ddangos rôl bwysig caffael yn y dasg o gynorthwyo'r modd y gall corff cyhoeddus gymryd camau i gyflawni gofynion y Ddeddf. Enghraifft o hyn yw eu blaenoriaeth "i amddiffyn yr amgylchedd, lleihau gwastraff, lleihau'r defnydd o ynni a defnyddio adnoddau eraill yn effeithlon" gan gynorthwyo'u hamcan llesiant "Mae Caerdydd yn tyfu mewn Dull Cydnerth".

**Astudiaeth Achos – Cyngor Caerffili**

Fel enghraifft o arfer da, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi cyhoeddi eu 'Rhaglen Gaffael 2018-2023' sy'n amlinellu'n glir y camau y maent wedi eu cymryd, ac yn cynllunio i'w cymryd, i gyflawni pob un o'u 17 nod strategol. Mae'r strategaeth yn dangos yn glir ystyriaeth i bob un o'r pedwar dimensiwn llesiant, ynghyd â dealltwriaeth o'r modd y bydd llwyddiant yn cael ei fesur, fel y dangosir isod. I gydfynd â phob nod strategol nodir y camau sydd eisoes wedi cael eu cymryd tuag at ei gyflawni, beth yw natur y llwyddiant, sut y caiff hwn ei wireddu ac amserlen yn nodi pryd y bydd yn cael ei gyflawni. Mae yna hefyd gydnabyddiaeth y bydd cynnydd yn cael ei fesur drwy eu cynllun gwella gwasanaethau.

**Astudiaeth Achos – Cyngor Caerffili (parhad)**

| THEMA | NOD STRATEGOL | YR AMCANION LLESIANT MWYAF PERTHNASOL | UN AGWEDD AR LWYDDIANT |
|---|---|---|---|
| Yr Amgylchedd | Busnes cyfrifol drwy weithgaredd caffael sy'n gweithio i helpu yn hytrach na rhwystro'r ddyletswydd gofal sy'n ddyledus arnom i fod yn deg ac ystyriol ym mhob agwedd o'n gweithgareddau busnes. | Amcan tri - Mynd i'r afael ag argaeledd, cyflwr a chynaliadwyedd cartrefi yn y bwrdeistref sirol drwyddi draw a rhoi cyngor, cymorth neu gefnogaeth i helpu i wella llesiant pobl.<br><br>Amcan pedwar – Hyrwyddo system drafnidiaeth fodern, integredig a chynaliadwy sy'n cynyddu cyfle, yn hyrwyddo ffyniant ac yn minimeiddio effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd. | Tystiolaeth bendant bod gweithgaredd caffael yn cynorthwyo Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). |

Mae llawer o Fyrddau Iechyd yn defnyddio 'Rhestr Wirio Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol', a ddatblygwyd gan Bartneriaeth Rhannu Gwasanaethau GIG Cymru ac a welir yn y 'templed astudiaeth achos Gwasanaethau Caffael', i ddangos pa rai o saith nod llesiant Cymru, ac weithiau'r pum dull o weithio a ystyrir ganddynt fel rhai perthnasol.

Mae'r enghraifft hon o'r modd y mae Rhestr Wirio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi ei chymhwyso yn dangos bod pump o saith nod llesiant Cymru a phob un o'r pum dull o weithio yn cael eu hystyried yn berthnasol i'r prosiect hwn. Dengys hyn beth ystyriaeth o'r modd y gall canlyniadau caffael gyflawni rhai agweddau ar y Ddeddf sy'n gadarnhaol, fodd bynnag nid yw defnyddio'r Ddeddf yn cael ei ystyried mewn dull holistig, gan fod pob elfen o'r Ddeddf yn cael ei hystyried ar ei phen ei hun.

Hefyd, nid yw'r rhestr wirio'n darparu gofod i egluro sut yr ystyrir y nodau ac nid oes unrhyw ystyriaeth o amcanion llesiant sefydliadol na phedwar dimensiwn llesiant (diwylliannol, economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol). Dylai arweinyddiaeth uwch fod yn ystyried sut yr ystyrir cyfleoedd i gyflawni pob elfen o'r Ddeddf drwy weithgareddau caffael, gan ddefnyddio offer cyfredol y Comisiynydd ac arweiniad sy'n cynorthwyo hyn.

| | |
|---|---|
| Cymru lewyrchus<br>Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. | ✓ |
| Cymru gydnerth<br>Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid. | |
| Gymru Iachach<br>Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. | ✓ |
| Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau | ✓ |
| Gymru o Gymunedau Cydlynys<br>Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da | ✓ |
| Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu<br>Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. | |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang<br>Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. | |

| | |
|---|---|
| Hirdymor<br>Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd | ✓ |
| Atal<br>Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion | |
| Integreiddio<br>Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff chyoeddus eraill | ✓ |
| Cydweithio<br>Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant | ✓ |
| Cynnwys<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu | ✓ |

Yn 2019, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro oedd y Bwrdd Iechyd cyntaf i ddatgan argyfwng hinsawdd ac maent wedi cymryd camau i gyflwyno theatrau llawdriniaeth cynaliadwy. Mae hyn yn amlygu sut y gellir defnyddio caffael i gynorthwyo cyflawni eu canlyniadau strategol ac mae'n cynorthwyo cyflawni eu hamcan llesiant i 'leihau niwed, gwastraff ac amrywiad yn gynaliadwy, gan wneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael i ni'.

Mae'r Comisiynydd eisoes wedi rhoi cyngor i gyrff cyhoeddus (Pennod 2, Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol), fel y nodir isod:

- Gwneud yn glir bod cynllunio a phenderfyniadau ariannol ar draws y saith maes corfforaethol yn gydnaws â chyflawni eu hamcanion llesiant. Dylai'r weledigaeth a ddarperir gan amcanion llesiant ddarparu cynllun ariannu tymor hwy a dylai cynlluniau/datganiadau llesiant corfforaethol nodi sut y bydd cynlluniau gwariant yn ymroi i gyllido eu camau.

- Darparu tystiolaeth yn eu datganiadau/cynlluniau/cynlluniau corfforaethol llesiant a darparu adroddiadau blynyddol ar sut mae cymhwyso'r Ddeddf i feysydd newid corfforaethol yn llywio'r camau y maent yn eu cymryd i facsimeiddio'u cyfraniad i'r nodau.

**Argymhellion y Comisiynydd:**

- Dylai uwch arweinyddiaeth adolygu eu hymagwedd tuag at gaffael a'u gweithgareddau i nodi cyfleoedd i facsimeiddio effaith cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol eu penderfyniadau gwariant, gan osod camau clir sy'n dangos sut mae caffael yn cynorthwyo cyflawni eu hamcanion llesiant sefydliadol.

## Y mater: Mae'r "system gaffael" yn rhy aml yn arwain at ffocws ar broses a chost tymor byr yn hytrach na chyflawni canlyniadau ehangach dros yr hirdymor, ac nid oes dull cyson o fesur y canlyniadau y gellir eu cyflawni yn unol â'r Ddeddf. Mae angen newid i ystyried costau hirdymor yn gyfannol, yn unol â'r Ddeddf.

Er bod y broses gaffael wedi gwella'n sylweddol dros y degawd diwethaf, mae gormod o ffocws o hyd ar broses ac nid ar ganlyniadau. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ffocysu ar lesiant gyda mwy o ffocws ar ganlyniadau a mesur yr hyn sy'n bwysig.

Rhwystr arall allweddol i gaffael cynaliadwy fu'r ffaith ei fod yn gallu costio mwy, o leiaf yn y tymor byr, yn arbennig pan na fydd costio oes-gyfan yn cael ei ystyried, hyd yn oed os ydyw yn cynnig arbedion a 'gwerth' ehangach.

Mae cynhyrchu buddion cymunedol yn gysyniad sydd wedi ei hirsefydlu yn nhirwedd caffael Cymru; ymagwedd arloesol pan gafodd ei lansio, sydd wedi cynorthwyo cyrff y sector cyhoeddus i ystyried buddion economaidd a chymdeithasol ychwanegol y gellir eu cyflawni wrth dendro contractau mawr. Drwy gydol yr ymchwil a'r Adolygiad Adran 20 ffurfiol, mae cyrff cyhoeddus wedi rhannu enghreifftiau o'r modd y maent yn cyflawni buddion cymunedol drwy gaffael. Mae sefydliadau'r sector cyhoeddus, yn arbennig yn y sector tai, yn defnyddio pecyn cymorth Buddion Cymunedol i adrodd ar ganlyniadau economaidd a chymdeithasol. Adroddir y canlyniadau hyn i Lywodraeth Cymru ond mae effaith y rhain yn aml yn araf i gael ei ddadansoddi ac nid yw'n cael ei rannu na'i adrodd yn fwy eang.

**Astudiaeth Achos – Cyngor Sir Ddinbych**

Ym Mehefin 2019 sefydlodd Cyngor Sir Ddinbych Hwb Buddion Cymunedol, wedi ei ddylunio i gynorthwyo a galluogi gwasanaethau'r cyngor i gynnwys buddion cymunedol mewn contractau ar y cyfle cyntaf posibl. Mae yna ddealltwriaeth glir gan yr Awdurdod Lleol o'r modd y mae defnyddio ymagwedd canlyniadau tuag at gaffael yn cyfrannu tuag at eu hamcanion a'u blaenoriaethau corfforaethol: h.y. pobl ifanc, cymunedau cysylltiedig, amgylchedd a chymunedau cydnerth. Dyma enghraifft gadarnhaol o ddatblygu platfform addas ar gyfer rhannu gwybodaeth ac arfer gorau.

Mae'r ymagwedd buddion cymunedol wedi cyflawni canlyniadau cadarnhaol dros nifer o flynyddoedd; fodd bynnag mae'r tirwedd wedi newid, ac mae'r Ddeddf yn awr yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus symud tu hwnt i fuddion cymunedol, sydd wedi ffocysu'n arbennig ar gyflawni canlyniadau sy'n cyfrannu at Gymru Lewyrchus, Cymru Iachach a Chymru sy'n Fwy Cyfartal, a llai ar feysydd megis natur a datgarboneiddio. Nid yw'r Pecyn Cymorth Buddion Cymunedol yn cynnwys ystyriaeth glir o bedwar dimensiwn llesiant (diwylliannol, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol), amcanion llesiant sefydliadol, neu weithrediad y pum dull o weithio. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ni symud tuag at wario'n fwy strategol i gyflawni set eang o amcanion llesiant sefydliadol ac yn ei dro y nodau llesiant hirdymor i Gymru.

**Astudiaeth Achos – Cyngor Sir y Fflint**

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi datblygu strategaeth gwerth cymdeithasol, polisi caffael gwerth cymdeithasol, ac wedi penodi swyddog gwerth cymdeithasol, a fydd yn eu cynorthwyo i gymryd camau i gyflawni amcanion strategaeth a amlinellir yn eu Cynllun llesiant, ac ymgorffori llesiant a gwerth cymdeithasol ehangach wrth gomisiynu a chaffael. Crynhoir eu hymagwedd yn eu datganiad bod "Gwerth cymdeithasol yn edrych y tu hwnt i gost ariannol gwasanaeth ac yn ystyried pa fuddion ychwanegol ehangach y gellir eu cynhyrchu i'r gymuned. Bydd gweithredu'r Strategaeth Gwerth Cymdeithasol yn elfen allweddol yn y dasg o gyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a galluogi'r Cyngor a phartneriaid i greu adnoddau newydd ar gyfer ffrydiau gwaith blaenoriaethol". Mae hwn yn gam calonogol a ddylai helpu'r Cyngor i gyflawni eu hamcanion yn well er bod yna, yn yr achos hwn, ac yn natblygiad y 'Fframwaith Mesur Cymdeithasol Cymru' gyfleoedd i atgyfnerthu cysylltiadau pellach â'r Ddeddf drwy ddefnyddio iaith llesiant a chynaliadwyedd yn hytrach na 'gwerth cymdeithasol' y gellir ei weld fel petai'n perthyn yn bennaf i 'lesiant cymdeithasol' yn hytrach nag ymgorffori llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf.

Yn eu hymdrechion i wneud hyn ac ystyried gwerth cymdeithasol ehangach, gan ffocysu ar gyfraniad i'r holl nodau llesiant, datgelodd cyfweliadau gyda llawer o gyrff cyhoeddus bod timau comisiynu a chaffael yn symud i ffwrdd oddi wrth yr ymagwedd buddion cymdeithasol.

Mae hyn yn adeiladu ar y gwaith sydd wedi ei arwain gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) dros y 15 mis diwethaf, gan weithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu fframwaith mesur gwerth cymdeithasol newydd i Gymru. Cafodd Themâu, Canlyniadau a Mesurau Cenedlaethol Cymru (TOMS) o dan arweinyddiaeth CLILC ei lansio yn Nhachwedd 2020 ac mae'n rhoi i sefydliadau ddull newydd o fesur gwerth cymdeithasol a fframwaith i reoli'r hyn sy'n gydnaws â'r saith nod llesiant ac sy'n caniatáu iddynt ystyried sut mae eu penderfyniadau caffael yn cyfrannu at eu hamcanion llesiant hwy eu hunain.

Rydyn ni'n croesawu datblygiad fframwaith sy'n mabwysiadu ymagwedd fwy holistig tuag at fesur gwerth cymdeithasol a llesiant, sy'n gydnaws â'r Ddeddf. Nid yw'n glir ar hyn o bryd fodd bynnag a ddylid, neu a fyddir yn mabwysiadu'r ymagwedd hon yn gyson ledled Cymru, ac ar hyn o bryd mae yna ddiffyg arweiniad cenedlaethol ar hyn. Bydd angen i unrhyw fframwaith sy'n cael ei sefydlu sicrhau adnoddau a sgiliau digonol ar gyfer rheoli contractau i sicrhau bod ymdrechion i ymgorffori'r Ddeddf yn y broses gaffael yn cael eu parhau a'u mesur; mynegodd llawer o gyrff cyhoeddus bryder am nad dyna'r achos ar hyn o bryd.

Adroddodd Llywodraeth Cymru bod eu ffocws ar ennill cysondeb wrth fesur gwerth cymdeithasol a'r Ddeddf, fodd bynnag, mae mecanwaith ar gyfer gwneud hyn yn dal yn absennol, ac nid oes unrhyw ymagwedd gyson ar gyfer monitro ac adrodd ar y modd y mae gwariant caffael yn cyflawni amcanion llesiant cyrff cyhoeddus neu'r saith nod llesiant.

Mae hyn yn gofyn am newid diwylliannol hirdymor ar draws cyrff cyhoeddus. Pwysleisiodd y rhan fwyaf o'r rhai a gymerodd ran yn y cyfweliadau (gweithwyr caffael proffesiynol, ariannol, ac aelodau'r tîm) yr angen a'r awydd i weithio tuag at gyflawni newid diwylliannol i ddarparu gwerth cymdeithasol ehangach a chanlyniadau sy'n gydnaws â'r Ddeddf.

**Argymhellion y Comisiynydd:**

Unwaith mae mecanwaith neu offer yn cael ei ddatblygu a'i fabwysiadu gan Lywodraeth Cymru (fel yr argymhellir uchod), dylai pob corff cyhoeddus fod yn ei ddefnyddio i fonitro ac adrodd yn glir ar ei weithgareddau, mewn arferion caffael unigol a hefyd yn gyffredinol, sut mae eu gwariant caffael yn cyflawni eu nodau a'u hamcanion llesiant.

- Rhaid i hyn gael ei adrodd yn yr adroddiadau blynyddol ar gyflawni eu hamcanion llesiant.
- Er mwyn osgoi dryswch iaith a chysylltu'n glir â gofynion statudol y Ddeddf dylid diwygio'r derminoleg i adlewyrchu iaith y Ddeddf.

## Y mater: Nid oes unrhyw fecanwaith ar gyfer hyrwyddo cyrff cyhoeddus i gydweithredu'n effeithiol, yn arbennig ar lefel traws-sector er mwyn gwella rhannu, dysgu, capasiti a sgiliau.

Mae yna rai strwythurau ar gyfer gweithredu cefnogaeth, cydweithredu a dysgu rhwng cyfoedion ledled Cymru, megis rhwydwaith Penaethiaid Caffael llywodraeth leol, grŵp Caffael Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a fforwm Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru, ond maent yn ddiffygiol mewn cydlyniad a chymorth cenedlaethol yn arbennig i hwyluso cydweithredu ar draws gwahanol sectorau, e.e. llywodraeth leol ac iechyd. Cydnabu'r cynrychiolwyr o gyrff cyhoeddus, a gymerodd ran yn Adolygiad Adran 20 yn gyson, bod yna angen aliniad a chyfleoedd gwell ar gyfer cyfathrebu a chydweithio agosach ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae hyn yn adeiladu ar ganfyddiadau ymchwil cyfnod 1 a gyhoeddwyd yn y bennod 'Caffael dan y chwydd wydr' yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020.

Ymddengys bod trefniadau cydweithredol yn flêr ers i'r newidiadau gael eu datgan i'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (yn 2018). Golyga'r diffyg cydlyniad a'r cymorth ymarferol ar gyfer cydweithredu:

- Bod cyfleoedd i rannu gwybodaeth a dysgu'n gyfyng, ac nid ydynt wedi ennyn ymgyfraniad trawstoriad eang o sefydliadau neu bartneriaid
- Nad yw enghreifftiau o arloesedd ac arfer da yn cael eu rhannu, ac nad oes anogaeth iddynt gael eu mabwysiadu mor eang ag y gallent.

Dengys tystiolaeth oddi wrth gyrff cyhoeddus bod yna lawer o eiriolwyr rhwystredig, sy'n credu yng ngrym ehangach caffael i weithio i sicrhau canlyniadau caffael cadarnhaol, yn aml heb gymorth neu arweinyddiaeth sefydliadol ehangach.

Fodd bynnag nid yw gwersi a ddysgwyd o'r canlyniadau hyn bob amser yn cael eu defnyddio drwyddi draw yn y fframweithiau a chaffael cydweithredol, gan arwain at fwlch rhwng yr hyn sy'n bosib a'r canlyniadau sydd mewn gwirionedd yn cael eu cyflawni.

Roedd yna gonsensws bod cyfathrebu a chytundeb rhwng Gweinidogion Llywodraeth Cymru a Chomisiynu ar flaenoriaethau lefel uchel yn allweddol. Er enghraifft, os yw cyni yn gyrru'r angen am 'gost isaf' fel blaenoriaeth bydd hyn yn cyfyngu ar y gallu (a'r meddylfryd) i ddod o hyd i gaffael yn lleol ac yn fwy cynaliadwy ac ystyried ymagweddau mwy arloesol. Pan fydd cymhelliant amlwg dros gyrchu mwy lleol a chanlyniadau cynaliadwy, mae hyn yn gorfodi'r sefydliad, nid y proffesiwn caffael yn unig, i feddwl yn wahanol am y broses gaffael o'r dechrau i'r diwedd. Mewn geiriau eraill, mae i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru'n gosod y naratif ac yn dangos arweinyddiaeth gan Weinidogion, i weithredoedd unigol swyddogion adrannol yn y maes hwn, yn hanfodol bwysig. Nid yw'n glir sut mae hyn yn cael ei gyfleu, ei ddeall neu ei fonitro'n gyson ar draws Llywodraeth Cymru ac mae yna enghreifftiau lle mae cyfeirio gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn wrthgynhyrchiol yn y dasg o annog cyrff cyhoeddus eraill i gymryd camau tuag at gaffael cynaliadwy.

Mae canfyddiad eang bod y cyfathrebu ar wneud penderfyniadau rhwng Llywodraeth y DU a sector cyhoeddus Cymru yn wael. Er enghraifft, erys ansicrwydd ynghylch cerrig milltir gwleidyddol mawr fel Brexit a Wylfa gan adael ychydig o amser i gyllidebu a chynllunio'n briodol - mae'r rhain yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol a chynllunio ymlaen llaw sy'n effeithio ar gategorïau gwariant fel ysgolion, tai, seilwaith a bwyd.

Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo bod cyllid pellach yn ofynnol i weithredu "Gofynion Cenedlaethau'r Dyfodol" - h.y, 'cyllideb cynaliadwyedd'. Roedd rhai cyrff cyhoeddus yn teimlo eu bod yn cael trafferth i nodi lle mae cyfleoedd i ystyried y Ddeddf yn cael eu colli heb wybod pa fath o adnoddau sydd eu hangen i gynorthwyo hyn (roedd hyn yn debyg i ganfyddiad a nodwyd yn argymhellion y cyfnod ymchwil a gyhoeddwyd yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020).

Fodd bynnag, tra fy mod yn cytuno bod angen naratif clir a chyson oddi wrth Lywodraeth Cymru sy'n pwysleisio'r gofynion newydd i ystyried 'gwariant llesiant' hirdymor, ochr yn ochr â chydnabyddiaeth briodol o hyn mewn dyraniadau a gofynion cyllid a roddir ar gyrff cyhoeddus, nid wyf yn cytuno mai'r ateb yw cyllidebau cynaliadwyedd. Yr hyn sydd ei angen yw newid diwylliannol tymor hwy tuag at gyllidebu llesiant yn hytrach na dyraniadau un-tro tymor byr sy'n arwain at weithio yn erbyn newid sylfaenol mewn agweddau at y modd yr ydym yn gwario arian cyhoeddus yng Nghymru.

**Astudiaeth Achos – Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar hyn o bryd yn cydweithio gyda Phrifysgol Glyndŵr ar systemau i wella cydgysylltu rhwng gwasanaethau, gan arwain at sefydlu 'meddylfryd gallaf-wneud'. Fodd bynnag, yn ystod trafodaethau, mynegodd yr awdurdod lleol bod y Ddeddf weithiau'n cael ei chanfod fel 'peth statudol' ychwanegol, yn hytrach na fframwaith strategol i gyflawni newid diwylliannol.

Drwy gydol y cyfweliadau gyda chyrff cyhoeddus bu rhai enghreifftiau da o feddwl arloesol a'r modd y mae caffael cydweithredol wedi helpu i ymladd yn erbyn pwysau cyfyngiadau cyllideb unigol gan ddangos ymhellach ystyriaeth o'r Ddeddf.

I gymryd camau i fodloni gofynion y Ddeddf, mae timau caffael wedi bod yn gweithio ar y cyd ag adrannau, sectorau a sefydliadau eraill ar draws rhanbarthau. Er enghraifft:

**Astudiaeth Achos – Cyngor Sir Powys**

Dros y 3 blynedd ddiwethaf mae prosiect Cartrefi Cynhenid o dan arweinyddiaeth Cyngor Sir Powys, wedi gweithio i nodi a phrofi ymyriadau a allai, o'u cymhwyso, gael effaith drawsffurfiol ar gadwyn gyflenwi adeiladau pren yng Nghymru yn benodol, ac ar ddarpariaeth tai cymdeithasol carbon isel yn gyffredinol. Ariennir y prosiect gan Lywodraeth Cymru a Rhaglen Datblygu Gwledig yr UE a'i gyflawni gan Wood Knowledge Wales gyda Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd, Coed Cymru a BM TRADA. Dywed adroddiad y prosiect mai "nawr yw'r amser i weithredu mewn modd sy'n mynd i'r afael â sioc economaidd Covid-19 i ddarparu gweithgynhyrchu gwyrdd ystyrlon, swyddi adeiladu a choedwigo ynghyd â Thai Carbon Net wedi eu cyflenwi o weithgynhyrchu a diwydiannau coedwigoedd yng Nghymru".

**Astudiaeth Achos – Gyngor Sir y Fflint a Chyngor Sir Ddinbych**

Mae gan Gyngor Sir y Fflint a Chyngor Sir Ddinbych wasanaeth caffael cydweithredol hirsefydlog. Eglurodd cynrychiolwyr o Gyngor Sir y Fflint bod hwn wedi cael ei sefydlu'n wreiddiol oherwydd nad oedd rolau caffael yn cael eu llenwi yn y naill na'r llall o'r Awdurdodau Lleol, ac mae'r sefydliadau'n cydweithio i gyflwyno eu cydweledigaeth sef:

- Gweithredu gwasanaeth caffael corfforaethol ardderchog medrus a rennir, sy'n sicrhau'r cymorth sy'n ofynnol ar gyfer y ddau sefydliad a gwasanaethau unigol wrth iddynt gyflawni amcanion corfforaethol ac amcanion gwasanaethau a thargedau effeithlonrwydd;
- Macsimeiddio arbedion caffael er lles y trigolion a busnesau Sir Ddinbych a Sir y Fflint;
- Datblygu gallu proffesiynol a chydnerthedd i greu tîm caffael o'r radd uchaf sy'n cyflwyno budd sefydliadol a datblygiad proffesiynol personol i'r tîm.

Amlygodd y drafodaeth gyda Chyngor Sir y Fflint bod y cytundeb yn hyrwyddo 'meddylfryd gallaf-wneud' oherwydd cwmpas y gweithgareddau sy'n cael eu cynnwys mewn rheoli o ddydd i ddydd, polisi, cyngor, cydymffurfio a chysylltu, ond gan honni hefyd nad yw'r berthynas heb ei heriau, yn bennaf oherwydd gwahanol flaenoriaethau pob Awdurdod Lleol. Mae'r cydweithio hwn i'w gymeradwyo ond gall y bydd ceisio alinio blaenoriaethau'r ddau sefydliad yn arwain at golli cyfleoedd i alluogi canlyniadau caffael i gyfrannu at amcanion llesiant sefydliadau unigol.



**Astudiaeth Achos – Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi datblygu enghraifft dda o gynllunio hirdymor, cyfathrebu effeithiol a ffynonellau adnoddau cynaliadwy - mae Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth wedi ei drefnu drwy'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus i helpu i ffurfio cysylltiadau rhwng y Bwrdd Iechyd a'r trydydd sector. Un fenter o'r fath a gymerwyd i weithredu'r Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth hwn, penodol i gaffael, er mwyn amddiffyn a thyfu'r gwariant o £7 miliwn yn flynyddol ar gontractau yn y trydydd sector, oedd darparu hyfforddiant i sefydliadau'r trydydd sector, dros bedair blynedd, sydd wedi arwain at greu swyddi newydd a lledaeniad cyflenwyr Cymreig i gynorthwyo darpariaeth gwasanaethau.

Mae'r enghreifftiau hyn yn amlygu'r angen i ennyn ymgyfraniad adrannau, sefydliadau, sectorau a chyflenwyr eraill yn y cyfnod cyn-caffael i gyflawni canlyniadau sy'n macsimeiddio cyfraniad i'r amcanion llesiant sefydliadol, a'r saith nod llesiant drwy ddefnyddio'r pum dull o weithio.



© Wiki Commons

**Argymhellion y Comisiynydd:**

- Bydd y Ganolfan Ragoriaeth Caffael a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn gweithredu fel porth canolog i gynorthwyo cydweithio a chydweithredu traws-sector. Ar y cyd ag eraill dylai Llywodraeth Cymru adolygu grwpiau a rhwydweithiau presennol i gyd-gysylltu'n well weithgaredd ar draws llywodraeth leol, iechyd, BGCau a rhanbarthau, ynghyd â'r trydydd sector a'r sector preifat.
- Dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus flaenoriaethu sut y gallant gydweithio a defnyddio gwariant i facsimeiddio gwerth cymdeithasol, cyfrannu at eu hamcanion llesiant, a gwella llesiant ar lefel leol.

**Astudiaeth Achos – InFuSe – Arloesedd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y Dyfodol**

Rhaglen cydweithredu drwy ymchwil yw InFuSe rhwng Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (gyda Sir Fynwy'n arwain), Y Lab (Nesta) a Phrifysgol Caerdydd. Amcan y prosiect a ariennir gan WEFO yw helpu gweithwyr y sector cyhoeddus i ddatblygu sgiliau a fedr gynorthwyo cymunedau'n well a chyflymu datgarboneiddio yn ardal Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Bydd y Rhaglen yn targedu capasiti newydd ar gyfer arloesedd o amgylch arbrofi, defnyddio data'n well ar gyfer gwneud penderfyniadau, a chaffael wedi ei dargedu i ddatrys heriau rhanbarthol a rennir, yn bennaf ar draws deg awdurdod lleol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Y tair ffrwd waith greiddiol ar gyfer y rhaglen yw:

- Y Labordy Addasu - cynorthwyo swyddogion i ddylunio a chyflwyno arbrofion sy'n rhoi ar brawf ddatrysiadau y gellid o bosib eu defnyddio i ddatrys problemau'r rhanbarth cyfan.
- Y Labordy Caffael - cynorthwyo swyddogion i ddysgu, datblygu a rhoi ar brawf brosesau a dulliau newydd ar gyfer caffael cynnyrch arloesol a gwasanaethau i gynhyrchu gwell canlyniadau i bobl sy'n defnyddio ac yn darparu gwasanaethau yn erbyn y ddau faes thematig.
- Y Labordy Data - cynorthwyo swyddogion i wella'u gallu i gasglu, rheoli, dadansoddi a deall, a gwneud defnydd mwy effeithiol o ddata wrth wneud penderfyniadau.




## 3.4. Effaith Covid-19 – Heriau a Chyfleoedd

Heb amheuaeth mae Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar bob corff cyhoeddus ac wedi arwain at ddatblygiadau cadarnhaol a negyddol mewn caffael. Tra bu rhai enghreifftiau o arloesedd ac arfer da, wedi eu cysylltu'n benodol â chaffael yn ystod y pandemig, ar y cyfan mae'r camau y mae cyrff cyhoeddus yn eu cymryd i gwrdd â gofynion y Ddeddf wedi aros yn eu hunfan yn ystod cyfnod Covid-19 yn aml oherwydd bod heriau parhaus wedi gwaethygu. Yn gyffredinol, mae hyn wedi digwydd oherwydd lleihad mewn capasiti, diffyg dealltwriaeth, heriau a rhwystrau adnoddau, a diffyg cymorth cyffredinol, yr olaf yn un a ystyrir gan gyfranogwyr fel un hanfodol wrth ystyried y cyfnod adfer.

Dyma rai o'r prif faterion a heriau a adroddwyd arnynt gan gyrff cyhoeddus yn ystod trafodaethau:

### Heriau Covid-19

**Heriau Adnoddau a Chapasiti**

Mae adnoddau a chapasiti wedi dod yn fater mwy dadleuol hyd yn oed yn ystod y cyfnod argyfwng, yn effeithio ar gaffael ac yn arbennig ar reoli contract a chapasiti i sicrhau bod y broses gaffael a'r system rheoli contract yn sicrhau pob maes gwerth cymdeithasol posibl.

Adroddodd rhai cyrff cyhoeddus lefelau uchel o staff ar absenoldeb salwch yn ystod y cyfnod hwn ac ymddengys bod sefydliadau cyhoeddus llai wedi wynebu effaith fwy negyddol oherwydd y gyfran o adnoddau a ddygwyd oddi ar swyddi beunyddiol wrth ymateb i argyfwng Covid-19. Er enghraifft, adroddodd un awdurdod lleol bod ymateb i Covid-19 yn golygu bod 10 o dîm o 16 o'r gweithwyr wedi cael eu dargyfeirio o dasgau dyddiol. Mae hyn wedi golygu bod rhai o'r prosiectau [arloesol] wedi eu hatal ac, mewn rhai achosion golyga'r baich cynyddol ar staff i reoli gweithgaredd dyddiol normal a hefyd weithgareddau'n gysylltiedig â Covid-19 bod pwysau sylweddol wedi ei osod ar staff - gydag ofn y byddai'n ormod iddynt.

**Caffael o dan bwysau amser**

Weithiau roedd yr angen dybryd i ailfeddwl ymagweddau tuag at gaffael er mwyn canoli a chynyddu ar frys y cyflenwad o nwyddau a gwasanaethau gofynnol ar gyfer Covid-19 yn golygu bod cyfathrebu mewnol ac ymgynghori wedi cael eu heffeithio. Mae hyn wedi arafu rhywfaint ar gaffael ac wedi byrhau piblinellau caffael, gan adael llai o amser i gyflenwyr baratoi.

Adroddodd cyrff cyhoeddus bod y brys am gyflenwadau a pheth llacio ar rai o reoliadau caffael wedi golygu eu bod wedi llwyddo i flaenoriaethu gwariant lleol a chynorthwyo cymunedau lleol, tra bu eraill yn ymgodymu â gwagleoedd mewn cadwyni cyflenwi a dysgu sut i gyrraedd marchnad leol yn gyflym. Roedd hyn yn amrywio yn dibynnu ar y math o gynnyrch neu wasanaeth oedd yn cael ei gaffael. Mae'r pwynt hwn hefyd yn cyfeirio nôl at y mater yn ymwneud â chapasiti ac adnoddau.

Darganfu cyrff cyhoeddus â gwariant is a lefel uchel o ansicrwydd (pŵer i brynu) nad ydynt yn cynnig buddsoddiad digonol i berswadio cyflenwyr i newid cyfeiriad mewn dull strategol, h.y, nid oeddent yn medru

cynnig teimlad o sicrwydd hirdymor i gyflenwyr.

**Ymgorffori llesiant a gwerth cymdeithasol**

Mae'r ymateb i Covid-19 wedi dod â chanlyniadau cyferbyniol o safbwynt cyflawni gwerth cymdeithasol. Ar y cyfan, mae blaenoriaethu'r Ddeddf wedi lleihau yn ystod Covid-19; mae timau caffael wedi gorfod ymdopi â gwagleoedd cyflenwad, amserlenni byr a salwch staff. Fodd bynnag, bu rhai enghreifftiau lle'r oedd y rhai a gymerodd ran yn yr Adolygiad Adran 20 yn teimlo eu bod wedi paratoi yn dda heb deimlo bod arnynt angen cyfaddawdu ar ystyried amcanion llesiant neu gyflawni'r Ddeddf.

**Seibiant Prosiectau**

Dywedodd rhai cyrff cyhoeddus bod gwariant ar gaffael wedi cael ei leihau yn ystod yr argyfwng gyda llawer o brosiectau newydd ac arloesol yn cael eu hatal dros dro gan adael llai o gyfle i ymgorffori gwerth cymdeithasol. Ond cafwyd llawero enghreifftiau o arfer da lle mae cyflenwyr



© Getty Images



© Aramyan

**Astudiaeth Achos – Llyfrgell Genedlaethol Cymru**

Yn ystod y pandemig Covid-19, penderfynodd Llyfrgell Genedlaethol Cymru ganslo prosiect caffael gwerth £4miliwn i adeiladu cyfleuster storio fel rhan o'r archif darlledu cenedlaethol. Mae'r cyllid ar gyfer hyn yn cael ei fuddsoddi mewn pethau sy'n sicrhau ymgysylltiad cymunedau â diwylliant a threftadaeth drwy ddigideiddio. Mae'r ymagwedd hon wedi cael ei chroesawu gan y loteri treftadaeth ac mae'n cyfrannu at eu hamcan llesiant "i gyflawni dulliau newydd o ddadansoddi ein casgliadau i ystod eang o gynulleidfaoedd". Hefyd mae canlyniad y caffael hwn yn adlewyrchu anghenion dinasyddion Cymru sy'n newid mewn ymateb i Covid-19 lle mae unigrwydd yn ystod cyfnodau o hunan-ynysu wedi cael effaith negyddol ar iechyd meddwl pobl.

lleol wedi cael ceisiadau penodol i ddarparu nwyddau a gwasanaethau angenrheidiol ar gyfer cyfnod yr argyfwng. Mae caffael offer meddygol (PPE, glanweithydd dwylo) wedi bod yn arbennig o berthnasol.

## Covid-19 – Gwersi a Ddysgwyd & Chyfleoedd

Er mai ychydig o amser a fu, os bu amser o gwbl, i gadw a chofio'r gwersi a ddysgwyd yn ystod yr argyfwng, mae'n bwysig i ystyried sut y gallwn ddysgu o'r gweithredu cadarnhaol yn ystod y cyfnod a dwyn y gwersi hyn yn eu blaen dros yr hirdymor. Mae prosiect dysgu Covid-19 wedi bod ar waith gan Gyfnewidfa Arfer Da Archwilio Cymru ac mae'r Sefydliad Materion Cymreig (IWA) yn ceisio dysgu o'r cyfnod hwn.

Mae peth adborth cychwynnol i dynnu sylw ato yn cynnwys:

**Ymgorffori llesiant a Gwerth Cymdeithasol**

Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo'u bod wedi paratoi yn dda ac nid oeddent yn teimlo bod arnynt angen cyfaddawdu ar amcanion llesiant neu gamau i gyflawni'r Ddeddf oherwydd Covid.

**Cynyddu Caffael yn Strategol**

Mae yna farn gyffredinol bod y canfyddiad o gaffael o fewn y sefydliad wedi gwella ers Covid-19; mae caffael wedi bod yn swyddogaeth hollbwysig yn nhermau'r modd y mae cyrff cyhoeddus wedi gorfod ymateb gyda chyfleoedd i ddangos sut y gall gynorthwyo cyflawni canlyniadau allweddol. Mae mwy o ffocws ar ganlyniadau yn hytrach na phroses yn cael ei ddangos gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre a nododd bod yr awydd i gyflawni mwy o ofal iechyd seiliedig ar werth wedi cynyddu, gan gydnabod effaith penderfyniadau ar gaffael o safbwynt cleifion, gyda defnyddwyr yn ymgyfrannu mwy mewn dylunio cynnyrch.

**Cyflymu Arloesedd**

Mae prinder yn y farchnad gyflenwi ar gyfer PPE a chynhyrchion brys eraill, wedi golygu bod Covid-19 wedi rhoi cyfle i arloesi ym maes caffael gyda mwy o ffocws ar ganlyniadau nac ar broses.

Er enghraifft, fel canlyniad i adeiladu ar y llwyddiant a'r gwersi a ddysgwyd o fentrau fel "Gwell swyddi yn agosach at adref", mae'r Gronfa Her Economi Sylfaenol wedi galluogi arbrofion mewn agweddau mwy heriol caffael, megis trwy ofal cymdeithasol gyda gwersi'n cael eu rhannu trwy fforwm Cymuned Ymarfer gyda'r nod o ddatblygu a chynyddu prosiectau tebyg ledled Cymru. Un neges bwysig sydd wedi dod yn amlwg yn ystod y pandemig yw'r angen i gefnogi busnesau bach a chanolig Cymru i fod yn fwy cydnerth, i gynyddu'n gyflym, arallgyfeirio a thyfu.

**Ymgysylltiad Sector**

Dangosodd trafodaethau gyda'r cyrff cyhoeddus yn ystod yr Adolygiad Adran 20 bod cyfleoedd i gyrchu adnoddau mwy lleol wedi golygu bod mwy o gymhelliant i gyrff cyhoeddus ymgysylltu â phartneriaid y trydydd sector sydd wedi cael eu canfod yn hanesyddol fel cysylltiadau gwannach o gwmpas y bwrdd. Ond ers Covid-19, mae eu sefyllfa unigryw a'u hagosatrwydd at wasanaethu cymunedau lleol wedi newid y ddeinameg a'r agwedd.

**Symudedd y Gweithlu**

Mae cyfnod y pandemig wedi dangos y gellid rheoli'r rhan fwyaf o waith caffael yn electronig heb yr angen i deithio, gyda'r un amcanion o fewn cyrraedd. Gallai hyn gynnig cyfleoedd i fabwysiadu ymagweddau mwy hyblyg tuag at gaffael cydweithredol sydd eto i'w harchwilio.

**Seilos Cyllideb**

[Y tu allan i gaffael] mae'r argyfwng wedi cyflymu'r angen i sefydliadau cyhoeddus ddeall yn well 'beth yw gwerth?'. Gall fod costau uwch o gyrchu lleol yn cynrychioli gwell gwerth am arian yn yr hirdymor gan ei bod yn bwysig i bwyso a mesur ffactorau eraill megis costau logisteg, cost bywyd ac a yw cynnyrch sy'n costio mwy yn cyflawni buddion ehangach neu dymor hwy i'r economi lleol. Mae cyflenwyr lleol hefyd yn agosach at ddeall anghenion lleol.

**Adeiladu Etifeddiaeth**

Mae Covid-19 wedi dangos y gellir cyflawni llawer mewn cyfnod byr sydd wedi ysgogi gweithwyr proffesiynol caffael i weithio gydag eraill yn y sefydliad i edrych ar ddulliau gwahanol o gaffael, i ddeall effaith graddfa a chwmpas newid pan fydd ymyriadau'n bosibl. Mae adeiladu etifeddiaeth a deall offer a thechnegau ar gyfer sicrhau gwerth yn allweddol bwysig

wrth symud ymlaen; dyfynnodd cyfranogwyr enghreifftiau (e.e. gorchuddion wyneb) i ddeall beth ellir ei wneud pan na fydd cost yn flaenoriaeth

**Caffael offer amddiffynnol personol (PPE)**

Cafwyd enghreifftiau o weithgynhyrchwyr Cymreig yn addasu eu galluoedd i ddatblygu cadwyni cyflenwi ar gyfer PPE a chynnyrch brys arall yn ystod y pandemig.

- Un o'r enghreifftiau cyntaf yng Nghymru oedd y Bathdy Brenhinol, cynhyrchydd darnau arian, a addasodd eu galluoedd gweithgynhyrchu gan greu fisor meddygol, gan ennill cymeradwyaeth cynhyrchu màs o fewn 48 awr. Mae'r fisorau meddygol yn cael eu cyflenwi i ysbytai yng Nghymru.
- Addasodd cynhyrchwyr 'gin' lleol, Hensol Castle Distillery, eu galluoedd gweithgynhyrchu mewn ymateb i Covid-19 gan sicrhau cyflenwad o lanweithydd dwylo i'r bwrdd iechyd.

Dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru "er bod y mwyafrif o PPE yn dod oddi wrth gyflenwyr rhyngwladol, mae Llywodraeth Cymru a'r GIG wedi gweithio gyda gweithgynhyrchwyr Cymru i ddatblygu cadwyni cyflenwi lleol. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym fod hyn wedi golygu gweithio ar y cyd o fewn Llywodraeth Cymru, a'r GIG a Diwylliant Cymru drwy Dîm Peirianneg Gofynion Offer Critigol (CERET). Mae croeso i'r ymagwedd gydweithredol hon yn ystod yr argyfwng a dylid adeiladu ar hyn dros yr hirdymor wrth i ni ennill adferiad yn dilyn y pandemig."

## COVID-19 Datganiad Terfynol

Oherwydd natur dreiddiol y pandemig, a rôl arwyddocaol caffael, mae wedi bod yn bwysig i ddeall y cyfleoedd a'r heriau a brofwyd gan gyrff cyhoeddus wrth ystyried y Ddeddf a'r broses gaffael.

Mae'r ymateb i Covid-19 wedi dangos bod caffael yn gallu cyflawni canlyniadau uchelgeisiol ac arloesol, mewn amgylchedd o dan bwysau amser, weithiau gyda lleihad mewn capasiti. Gan edrych tuag adferiad yn dilyn Covid-19, mae'n bwysig bod yr arfer da hwn yn cael ei gynyddu, gan adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd.

Yn yr un modd, mae effaith Covid-19 wedi tynnu sylw at y rhwystrau presennol i gyflawni canlyniadau caffael yn unol â gofynion y Ddeddf, gan gynnwys absenoldeb cyfranogiad sefydliadol, ac ymgyfraniad arweinyddiaeth ac ymgysylltiad (â'r Ddeddf ac â chaffael) yn ddiffygiol mewn adnoddau a chapasiti, ynghyd â'r heriau a wynebir wrth lywio drwy'r hyn sydd wedi dod yn dirwedd cynyddol gymhleth.

Ymddengys bod y gwersi a ddysgwyd o Covid-19 wedi cyflymu newid gyda sylw arbennig i weithio'n ddigidol a gweithio o gartref yn arwain at fwy o fuddion amgylcheddol. Mewn caffael bu gwell cydweithio llorweddol ar draws cyrff cyhoeddus ac yn fertigol rhwng cyrff cyhoeddus a'r farchnad gyflenwi leol. Nodwyd gan rai cyrff tra'u bod yn awyddus i barhau gyda'r newidiadau a wnaed, mae yna ofn y bydd busnes yn mynd yn ôl i amseroedd normal, cyn-covid.

Wrth i ni ddod allan o'r pandemig a dod wyneb yn wyneb â'r distryw cymdeithasol, mae'n hanfodol bwysig nad ydym yn colli golwg o'r cynnydd a wnaed a bod caffael yn parhau i ddatblygu. Mae'n bwysicach nag erioed i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r rhwystrau i weithredu caffael cynaliadwy, i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario mewn dull sy'n gyrru buddion ehangach tuag at y rhai hynny sydd bellaf i ffwrdd oddi wrth y farchnad lafur, tuag at gwrdd â'n targedau datgarboneiddio a thuag at adfywio cymunedau a gafodd eu taro fwyaf gan yr argyfwng.

# 04 ARGYMHELLION I LYWODRAETH CYMRU

Dyluniwyd yr Argymhellion hyn i hyrwyddo a chynnal newid cadarnhaol, ond i gael yr effaith mwyaf mae angen iddynt gael eu hystyried yn gyflym. Lluniwyd yr Argymhellion ar y sail y gallant, ac y dylent gael eu cyflawni, o fewn y 12 mis nesaf, h.y. cyn diwedd Mawrth 2022.

## Mater a amlygwyd:

**Mae Llywodraeth Cymru wedi methu dangos arweinyddiaeth gydgysylltiedig glir ar rôl caffael yn y dasg o gyflawni nodau llesiant cenedlaethol Cymru (ac amcanion llesiant cyrff cyhoeddus).**

## Argymhellion i Lywodraeth Cymru

- Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Canolfan Ragoriaeth Caffael ar gyfer gwella cydgysylltu, cydweithredu a darparu cymorth ymarferol i gyrff cyhoeddus wrth iddynt arfer eu swyddogaethau caffael, yn benodol mewn perthynas â'r Ddeddf. Byddai datblygu'r Ganolfan Ragoriaeth hon yn gofyn am adolygiad a diwygiad hollgynhwysfawr o'r tirwedd caffael presennol (strwythurau, rhwydweithiau, partneriaethau a mentrau) gyda darpariaeth adnoddau i adeiladu capasiti a chynorthwyo gweithredu.

- Dylai'r Rhaglen Lywodraethu newydd nodi'n glir sut y bydd Llywodraeth Cymru'n darparu arweinyddiaeth strategol ac ymrwymiad i gynorthwyo a chyflawni canlyniadau caffael ehangach, gan ddefnyddio iaith sy'n gyson â'r Ddeddf.

- Dylai Datganiad Polisi Caffael newydd Llywodraeth Cymru ddangos yn glir sut y bydd yn cynorthwyo cyrff cyhoeddus i wireddu dyheadau'r Ddeddf ym maes caffael y sector cyhoeddus yng Nghymru. Dylai'r Datganiad hwn, ynghyd â chynnydd tuag at gyflawni'r ymrwymiadau, gael ei hadolygu a'u hadrodd yn flynyddol.

- Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau fod pob fframwaith caffael cenedlaethol yn y dyfodol yn cyd-fynd â, ac yn cyfrannu at, y saith nod llesiant cenedlaethol ac yn defnyddio'r pum dull o weithio a nodir yn y Ddeddf.

## Cyngor pellach ar y modd y gellir cyflawni hyn:

Byddem yn cynghori'n bendant nad yw'r Ganolfan Rhagoraeth hon yn cael ei datblygu gan weision sifil yn unig, ond y dylid ei gwneud mewn cydweithrediad â'r gymuned gaffael ehangach ac arbenigwyr allanol, gyda goruchwyliaeth gan Weinidogion. Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys ystod holistig o sefydliadau sy'n dod â gwybodaeth ac arbenigedd i bob un o'r nodau llesiant cenedlaethol yn ogystal â phroffesiynau perthnasol. Gallai'r strwythur hwn gael ei arolygu gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol neu o leiaf drwy gysylltiad clir rhyngddynt.

Bydd y Ganolfan Rhagoraeth yn:

- Gweithredu fel porth canolog i gydgysylltu a chynorthwyo cydweithio a gweithredu traws sector.
- Adrodd yn rheolaidd ar ganlyniadau a gyflawnwyd drwy gaffael.
- Rhoi adborth i gyrff cyhoeddus ar arfer da a drwg.
- Cefnogi a galluogi dysgu a rannwyd gan gyrff cyhoeddus sy'n gyrru gwelliant yn unol â'r Ddeddf.
- Darparu cymorth ymarferol ar lawr gwlad i'r proffesiwn caffael.
- Codi proffil caffael, gan roi'r gallu a'r awdurdod i weithwyr proffesiynol caffael ynghyd â chefnogaeth ymrwymiad lefel-uchel.

Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu'r Ganolfan a gosod canlyniadau clir (mewn cytundeb ag eraill), gan adrodd yn flynyddol ar sut mae'r rhain yn cael eu cyflawni.

Mae Canolfan Gwasanaeth Digidol Llywodraeth Cymru'n enghraifft o 'fecanwaith' sydd wedi ei ddylunio i roi arweiniad, hyfforddiant, safonau, rhwydweithio ar y cyd a help ymarferol i wasanaethau cyhoeddus Cymru. Gellir mabwysiadu ymagwedd debyg tuag at gaffael.

Mae gwaith Cronfa Her yr Economi Sylfaenol, Canolfan Strategaethau Economaidd Lleol (CLES) a datblygiad TOMs Cenedlaethol Cymru, a amlygir yn yr adroddiad hwn yn fan cychwyn da. Fodd bynnag, mae angen mwy o gydgysylltiad rhwng y prosiectau hyn, yn ogystal â darpariaeth cymorth ymarferol ychwanegol i gyrff cyhoeddus.

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu canllawiau ymarferol, gan gefnogi cyrff cyhoeddus sy'n defnyddio fframweithiau cenedlaethol a/neu ranbarthol i gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol a chymhwyso'r pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf.

## Mater a amlygwyd:

**Mae yna gyfathrebu ac integreiddio gwael rhwng gwahanol flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â'r diffyg cefnogaeth sydd ar gael i gyrff cyhoeddus fedru sicrhau bod y rhain yn cael eu gweithredu'n effeithiol ar lawr gwlad.**

## Argymhellion i Lywodraeth Cymru

- Dylai Llywodraeth Cymru adolygu pob canllaw a phecyn cymorth sydd ar waith ar hyn o bryd i gynorthwyo caffael cynaliadwy a mesur/monitro buddion cymunedol ac/neu gwerth cymdeithasol, a chyhoeddi cynllun clir yn amlinellu sut y bydd y rhain yn cael eu diwygio a'i hatgyfnerthu i alluogi ymagwedd gyson, fel y gall cyrff cyhoeddus adrodd ar y canlyniadau llesiant sy'n cael eu cyflawni.
- Er mwyn cyflawni targedau allyriadau carbon dylai pob corff cyhoeddus ddatgan yn glir sut y maent wedi ystyried effaith carbon eu penderfyniadau caffael ac yn achos adeiladu neu seilwaith dylai fod yn glir ei bod yn ofynnol i gynlluniau contract fod yn carbon sero-net dros eu hoes.

## Cyngor pellach ar y modd y gellir cyflawni hyn:

Bydd angen i'r Bil Partneriaethau Cymdeithasol, sydd ar ddod, sicrhau bod y ddyletswydd gaffael newydd a osodir ar gyrff cyhoeddus yn eu cynorthwyo i gyflawni canlyniadau a fydd yn eu helpu i wireddu eu hamcanion llesiant ac, yn ei dro, y nodau llesiant cenedlaethol.

Mae adroddiad diweddar gan Ganolfan Cydweithredol Cymru'n rhoi crynodeb defnyddiol o'r modd y mae deddfwriaeth gyfredol, polisi ac arweiniad yn cynorthwyo cyflawni gwerth cymdeithasol o fewn y sector gofal cymdeithasol.

## Mater a amlygwyd:

**Mae cyfleoedd i beri i wariant weithio'n galetach yn cael eu colli oherwydd diffyg cymorth i'r proffesiwn caffael a diffyg atebolrwydd ar lefel arweinyddiaeth.**

## Argymhellion i Lywodraeth Cymru

- Dylai'r Ganolfan Ragoriaeth Caffael adolygu a diwygio strwythurau ar gyfer atebolrwydd cenedlaethol a sefydlu mecanwaith priodol i graffu ar gynnydd mewn gweithredu. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn flynyddol ar y modd y mae gwariant cyhoeddus cenedlaethol cyffredinol yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol.
- Hefyd, dylai eu hadroddiad blynyddol (ar gynnydd gyda'r Ddeddf) nodi'n glir sut y mae eu holl wariant caffael, a'u gwariant grantiau, hwy eu hunain yn cyfrannu at gyflawni eu hamcanion llesiant, ac yn ei tro, y saith nod llesiant cenedlaethol.

## Cyngor pellach ar y modd y gellir cyflawni hyn:

Bydd y Ganolfan Ragoriaeth hon yn cael ei chysylltu â gwneuthurwyr polisi allweddol yn cynnwys Gweinidogion ac arweinwyr y sector cyhoeddus, ac yn cael ei chynorthwyo gan gynghorwyr allanol â gwybodaeth ac arbenigedd ar bob un o'r nodau llesiant cenedlaethol yn ogystal â phroffesiynau perthnasol. Bydd gan y Ganolfan gylch gwaith penodol i amlygu ble mae gwariant cyffredinol ledled Cymru yn methu alinio neu'n symud yn araf yn y dasg o gyflawni'r nodau llesiant a chyfeirio gweithredu cenedlaethol i fynd i'r afael a hyn.

## Mater a amlygwyd:

**Nid oes unrhyw fonitro parhaus o ddulliau neu ganlyniadau caffael naill ai at ddibenion sylwi lle mae pethau'n mynd o chwith, a chyfleoedd yn cael eu colli, nac ar gyfer nodi a rhannu arfer gorau.**

## Argymhellion i Lywodraeth Cymru

- Dylai'r Ganolfan Ragoriaeth Caffael ddatblygu mecanwaith neu offeryn i gynorthwyo cyrff cyhoeddus i fonitro ac adrodd yn gyson ar y Ddeddf (gan adeiladu o bosibl ar y gwaith sy'n cael ei wneud ar werth cymdeithasol a'r fframwaith TOMS newydd) gan ddangos sut mae eu gwariant ar gaffael yn cyflawni'r nodau a'r amcanion llesiant.
- Dylai Llywodraeth Cymru fonitro cynnydd a wneir gan gyrff cyhoeddus Cymru. Rhaid adrodd ar hyn yn yr adroddiadau blynyddol ar gyflawni eu hamcanion llesiant ar gyfer Llywodraeth Cymru parthed y canlyniadau cyffredinol sy'n cael eu cyflawni ledled Cymru a hefyd gan gyrff cyhoeddus unigol.

## Cyngor pellach ar y modd y gellir cyflawni hyn:

Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i roi cymorth i gyrff cyhoeddus (y swyddogaeth gaffael yn benodol) i gyflawni hyn.

Gallai hyn gynnwys sefydlu Cymuned Arfer ar gyfer rhannu a dysgu am beth sy'n gweithio.

# 05 ARGYMHELLION I GYRFF CYHOEDDUS, YN CYNNWYS LLYWODRAETH CYMRU

Eto, dyluniwyd yr Argymhellion hyn gyda fframwaith 12-mis mewn golwg (cyn diwedd Mawrth 2022), oni bai y nodir fel arall.

## Mater a amlygwyd:

**Nid yw cyfleoedd i gyflawni pob un o'r pedwar dimensiwn llesiant yn cael eu macsimeiddio, yn aml oherwydd diffyg arweinyddiaeth ac ymagwedd strategol nad yw'n cydnabod 'pŵer prynu'.**

## Argymhellion i Gyrff Cyhoeddus

Dylai uwch arweinyddiaeth adolygu eu hymagwedd tuag at gaffael a'u gweithgareddau i nodi cyfleoedd i facsimeiddio effaith cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol penderfyniadau gwariant, gan osod camau clir sy'n dangos sut mae caffael yn cynorthwyo cyflawni eu hamcanion llesiant sefydliadol.

## Cyngor pellach ar y modd y gellid cyflawni hyn:

Mae angen i gaffael gael sylw 'ar y lefel uchaf'. Dylai Cyrff Cyhoeddus ennyn ymgyfraniad adrannau a sefydliadau sy'n ymgyfrannu yn y broses gaffael ac sy'n cael eu heffeithio ganddi pan fydd amcanion llesiant yn cael eu gosod (e.e. comisiynu, rheoli contract, cyflenwyr a rheoli gwastraff). Gallai hyn arwain at ddealltwriaeth ymhlith cyrff cyhoeddus o fuddion ehangach a'r camau y gallant eu cymryd i wella pob agwedd ar welliant drwy gaffael.

## Mater a amlygwyd:

**Mae'r "system gaffael" yn rhy aml yn arwain at ffocws ar broses a chost tymor byr yn hytrach na chyflawni canlyniadau ehangach dros yr hirdymor, ac nid oes dull cyson o fesur y canlyniadau y gellir eu cyflawni yn unol â'r Ddeddf. Mae angen newid i ystyried costau hirdymor yn gyfannol, yn unol â'r Ddeddf.**

## Argymhellion i Gyrff Cyhoeddus

Unwaith y mae mecanwaith neu offeryn yn cael ei ddatblygu a'i fabwysiadu gan Lywodraeth Cymru (fel yr argymhellir uchod), dylai pob corff cyhoeddus fod yn ei ddefnyddio i fonitro ac adrodd yn glir ar eu gweithgareddau, mewn arferion caffael unigol, ac yn gyffredinol, a'r modd y mae eu gwariant caffael yn cyflawni nodau ac amcanion llesiant.

- Dylid adrodd ar gyflawni eu hamcanion llesiant yn yr adroddiadau blynyddol.
- Er mwyn osgoi dryswch iaith a chysylltu'n glir â gofynion statudol y Ddeddf dylai'r derminoleg gael ei diwygio i adlewyrchu iaith y Ddeddf.

## Cyngor pellach ar y modd y gellid cyflawni hyn:

Ar y man lleiaf, dylai pob contract dros £1miliwn (megis y pecyn cymorth Buddion Cymdeithasol) gynnwys asesiad o'r canlyniadau sy'n cael eu cyflawni yn erbyn y pedwar dimensiwn llesiant (diwylliannol, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol), neu y saith nod llesiant a'u hamcanion llesiant hwy eu hunain.

Dylai Cyrff Cyhoeddus gyfranogi'n rhagweithiol yn y Gymuned Arfer ar gyfer rhannu a dysgu beth sy'n gweithio.

Defnyddio'r adnoddau a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a sefydliadau eraill.

- Mae Pennod 2 yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 'Caffael dan y chwydd wydr' yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer caffael y sector cyhoeddus gydag argymhellion i bob corff cyhoeddus (yn cynnwys Llywodraeth Cymru).
- Mae Pennod 4 Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 yn ffocysu ar 'Gosod amcanion llesiant da'.
- Mae'r 'teithiau' ar gyfer bob un o'r saith nod llesiant fel rhan o'r rhaglen Y Gallu i Greu yn cynnwys arweiniad i gyrff cyhoeddus ar y camau dylent fod yn eu cymryd. Mae caffael teg a lleol yn thema o fewn Taith i Gymru Lewyrchus, ac mae defnydd a chaffael moesefol yn thema o fewn Taith i Gymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

## Mater a amlygwyd:

**Nid oes unrhyw fecanwaith ar gyfer hyrwyddo cydweithredu effeithiol ar gyfer cyrff cyhoeddus, yn arbennig fecanwaith traws-sector i wella rhannu, dysgu, capasiti a sgiliau.**

## Argymhellion i Gyrff Cyhoeddus

Bydd y Ganolfan Rhagoriaeth Caffael a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn gweithredu fel porth canolog i gynorthwyo cydweithio a gweithredu traws-sector. Mewn cydweithrediad ag eraill dylai Llywodraeth Cymru adolygu grwpiau presennol a rhwydweithiau i wella cydgysylltiad rhwng gweithredu llywodraeth leol, iechyd, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a rhanbarthau, ynghyd â'r trydydd sector a'r sector preifat.

Dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus flaenoriaethu sut y gallant gydweithio a defnyddio gwariant i facsimeiddio gwerth cymdeithasol, cyfrannu at eu hamcanion lleisant, a gwella llesiant ar lefel leol.

## Cyngor pellach ar y modd y gellid cyflawni hyn:

Adolygu effaith mentrau presennol a mecanweithiau (e.e. Hwb Gwybodaeth, Arfer Cymunedol Economi Sylfaenol, rhwydweithiau cenedlaethol a rhanbarthol).

Mwy o gymorth rhwng cyfoedion i harneisio arfer da a gyrru newid ar draws sectorau.

Mae'r Ganolfan Strategaeth Economaidd Lleol (CLES) ar hyn o bryd yn gweithio gyda 5 clwstwr o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i archwilio cyfleoedd yn ymwneud â chaffael, gwariant lleol ac adeiladu cyfoeth cymunedol. Dylai fod cefnogaeth i gynyddu'r gwaith hwn ledled Cymru.

# Adnoddau ac offer defnyddiol, a all eich helpu yn dilyn yr argymhellion hyn:




Adroddiad Cenedlaethau’r Dyfodol 2020 - Adroddiad nodi asesiad y Comisiynydd o'r cynnydd a wnaed wrth weithredu'r Ddeddf o fewn y cyfnod adrodd.

Manifesto y Dyfodol - Nod y ddogfen hon yw chwyddo lleisiau pobl ifanc wrth i ni agosáu at etholiad y Senedd yn 2021. Mae'n nodi'r argymhellion allweddol y mae'r Comisiynwyr am weld Llywodraeth nesaf Cymru yn ymrwymo iddynt. Mae'r Comisiynydd wedi galw ar bob plaid wleidyddol i ystyried yr argymhellion hyn yn eu gwaith maniffesto.







Mae Adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru 'Caffael Cyhoeddus Cynaliadwy 2019' - yn amlinellu sut i weithredu arferion caffael cynaliadwy.


Caffael yn yr Economi Sylfaenol - Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer rôl caffael yng Nghymru, rôl bresennol caffael, ac enghreifftiau o arfer gorau.






Helpu Comisiynwyr a Chaffaelwyr gofal i Hyrwyddo Modelau darparu 'Gwerth Cymdeithasol' - Mae'r ddogfen hon yn ganlyniad gwaith a gomisiynwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru (y Ganolfan) gan Lywodraeth Cymru yng nghanol 2019. Y bwriad oedd i'r gwaith "ddylanwadu ar gomisiynwyr a chaffaelwyr i hyrwyddo cwmnïau cydweithredol a modelau gwerth cymdeithasol eraill".

'The National TOMs Wales' - Fframwaith ar gyfer mesur a rheoli gwerth cymdeithasol sy'n caniatáu datgloi gwerth cymdeithasol trwy ei integreiddio i gaffael a rheoli prosiectau. Mae'n ymgorffori holl ofynion y Pecyn Cymorth Buddion Cymunedol ac fe'i cynlluniwyd i ganiatáu i sefydliadau asesu eu cyfraniad gwerth cymdeithasol i'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.




# Cysylltiadau defnyddiol i'ch cefnogi chi i ddilyn yr argymhellion hyn:

- Wrap Cymru
- National Social Value Taskforce
- Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol
- Adeiladu Arbenigrwydd Yng Nghymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Atebion Solutions
- Gwybodaeth Caffael & Chadwyn Gyflenwi - CIPS
- Caffael Cynaliadwy - CIPS
- Institute for Collaborative Working
- Gwneud Cymru'n Cenedl Dim Datgoedwigo – Maint Cymru